



Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Datganiad Cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar
31 Mawrth 2017

M S Owen
Pennaeth Cyllid

DATGANIAD CYFRIFON**Tudalen**

Adroddiad Naratif	2
Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon	7
Datganiadau Ariannol:	
Dadansoddiad o Wariant a Chyllido	8
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	9
Datganiad o Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn	10
Y Fantolen	11
Datganiad Llif Arian	12
Nodiadau ar y Cyfrifon (gan gynnwys Polisiâu Cyfrifyddu)	13
Cyfrif Refeniw Tai a'r Nodiadau	60
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	64
Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	65

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad Naratif hwn yn rhoi crynodeb o berfformiad ariannol y Cyngor, ei sefyllfa ariannol a'r prif faterion sy'n effeithio ar y Cyngor a'i Ddatganiad Cyfrifon. O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu Datganiad Cyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Mae'r Datganiadau sy'n dilyn yr adroddiad naratif hwn fel a ganlyn:

- **Datganiad o Gyfrifoldebau dros y Datgan Cyfrifon** - yn nodi cyfrifoldebau perthnasol y Cyngor a'r Pennaeth Cyllid.
- **Datganiad Gwariant a Chyllido** – yn dangos y gwariant net a godir ar drethiant a rhenti gan ei gymodi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - yn dangos cost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ran darparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant lleol. Mae Cynghorau yn codi trethi ar gyfer gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa treth y cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn:
- **Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** - yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn amrywiol gronfeydd wrth gefn y Cyngor, wedi'u rhannu'n 'gronfeydd y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill;
- **Mantolen** - sy'n dangos sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2017;
- **Datganiad Llif Arian** - yn dangos y newid mewn arian parod ac eitemau cyferwerth ag arian parod y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol;
- **Nodiadau ar y Cyfrifon** – yn cynnwys polisiâu cyfrifyddu'r Cyngor
- **Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a nodiadau** - yn dangos, yn fwy manwl, yr incwm a'r gwariant ar wasanaethau CRT sydd wedi'u cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** – yn rhoi barn yr archwilydd ar y datganiadau ariannol.

2. Perfformiad Ariannol

Proses y Gyllideb 2016/17

- 2.1 Wrth baratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (SATC) bydd y Cyngor yn gwneud cynlluniau gwariant dros dro ar gyfer y blynyddoedd ariannol i ddod gan sicrhau eu bod yn cael eu mantoli yn erbyn yr arian y disgwylir ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a thalwyr Treth y Cyngor. Mae'r SATC yn broses tair blynedd gynyddrannol sy'n adeiladu ar waith a llwyddiannau'r blynyddoedd blaenorol, gan ystyried pwysau demograffig, deddfwriaethol a phwysau arall, wedi'i liniaru â chynigion ar gyfer gwneud arbedion er mwyn sicrhau y gellir gwireddu cyllideb fantoledig yn y flwyddyn sydd i ddod.
- 2.2 Amlygodd SATC y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2015/16 hyd 2017/18 bod angen gwneud arbedion arfaethedig o oddeutu £15m i gau'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer 2016/17. Llwyddwyd i leihau'r bwlch yn y gyllideb i £5m ac yn ystod mis Medi a mis Hydref 2015 ymgynghorodd y Cyngor â'r cyhoedd ar becyn o gynigion drafft ar gyfer gwneud arbedion drwy greu:

- Model a Strwythur Uwch Reoli newydd
- Modelau a Strwythurau Newydd ar gyfer Adrannau
- Lleihau Gwariant Trydydd Parti
- Adfer Incwm a Chostau

- 2.3 Yn dilyn argymhelliad y Bwrdd Gweithredol, ar 24 Chwefror 2016, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb o £224m ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17. Yn y cyfarfod hwnnw hefyd cymeradwyodd y Cyngor SATC ar gyfer y cyfnod 2016/17-2018/19 yn ogystal â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2016/17. Cymeradwywyd cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Rhaglenni Cyfalaf CRT a heb fod yn CRT gan y Bwrdd Gweithredol ar 9 Chwefror 2016.

Lefel Ragamcanol y Balansau

- 2.4 Un mater arwyddocaol, mewn perthynas â'r SATC yn ogystal â chyllideb 2016/17, oedd y rhagdybiaeth ynghylch lefel y balansau y byddai'r Cyngor eu hangen i fynd i'r afael ag unrhyw bwysau annisgwyl o ran gwariant. Mae angen i'r balansau adlewyrchu'r profiad gwario a'r risgiau y gallai'r Cyngor fod yn agored iddynt. Yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2016 cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor a'r balans a argymhellwyd ar gyfer y Gronfa Gyffredinol, sef £7.018m, a balans RCT o oddeutu £6m ar gyfer 2016/17.

Monitro Cyllidebau

- 2.5 Mae gan y cyngor weithdrefnau rheolaeth ariannol sefydledig a chadarn ar gyfer monitro cyllidebau ac i liniaru unrhyw orwariant a ragwelir. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi bod yn llwyddiannus dros ben fel modd o roi rhybudd cynnar bod perygl na fydd arbedion cyllidol a gymeradwywyd yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, yn ystod 2016/17, gwnaed trefniadau monitro arbedion ychwanegol drwy fod tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor yn adolygu cynnydd mewn perthynas â darpariaeth yr arbedion bob chwarter.
- 2.6 Rhoddir gwybodaeth am y gyllideb refeniw i'r holl aelodau bob dau fis a chaiff y wybodaeth ei hystyried gan y Panel Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Llywodraethu ac Adnoddau ar gyfnodau o bum mis, wyth mis a deuddeg mis i mewn i'r flwyddyn. Caiff gwybodaeth am y gyllideb refeniw ynghyd â rheolaeth y risgiau a ddynodwyd fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ei hadrodd i'r Bwrdd Gweithredol 6 mis i mewn i'r flwyddyn. Bydd y Bwrdd Gweithredol hefyd yn ystyried y sefyllfa refeniw derfynol ac yn cymeradwyo'r trefniadau dwyn ymlaen mewn perthynas â chronfeydd a balansau. Mae'r broses hon yn hwyluso lefel dda o herio, gan gynnwys adolygu unrhyw effeithiau posibl ar berfformiad gwasanaethau.
- 2.7 Roedd adroddiad monitro cyntaf y flwyddyn ariannol ar gyfer yr aelodau yn tynnu sylw at orwariant posibl o £1.7m i adran yr Amgylchedd a Chynllunio, yn bennaf o ganlyniad i bwysau ar y contract Rheoli Gwastraff MAP ac yn benodol o ganlyniad i ostyngiad ym mhrisiau'r farchnad deunyddiau ailgylchu ac incwm o'r farchnad honno. Ar ôl cyhoeddi'r nodyn briffio ar gyfer aelodau, cymerwyd camau gweithredu ar sail gorfforaethol a gofynnwyd i bob Pennaeth Adran wneud arbedion ychwanegol o £624, a oedd gyfwerth ag oddeutu hanner y diffyg a ragwelwyd yn y gyllideb bryd hynny. Yn ychwanegol, ym mis Rhagfyr 2016, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol drosglwyddiad £500k o gyllideb wrth gefn ganolog i mewn i gyllideb yr Amgylchedd a Chynllunio, gan leihau cyllideb incwm gwerthiannau trydydd parti'r adran a'r gorwariant rhagamcanol.

Alldro Refeniw 2016/17

- 2.8 Mae sefyllfa refeniw alldro'r Cyngor 2016/17 i'w weld mewn tabl ar dudalen 4. Gwariodd gwasanaethau Cronfa'r Cyngor (ar wahân i'r CRT) £223,541k yn erbyn cyllideb o £224,069k h.y. tanwariant o £528k (llinell 2, colofn c). Yr arenillion net o dreth y cyngor oedd £3k (llinell 3, colofn c) yn fwy na'r disgwyl ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, gan arwain at warged Treth y Cyngor cyffredinol o £531k. Gorwariodd ysgolion o £938k (llinell 1, colofn c). Digwyddodd y gorwariant o £898k ar yr Amgylchedd a Chynllunio o ganlyniad i bwysau ar y contract MAP ac roedd y tanwariant o £1m ar Wariant Corfforaethol a Chanolog (Gwasanaethau) yn bennaf o ganlyniad i arbedion yng nghyllideb y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.
- 2.9 Ym mis Rhagfyr 2016, o ganlyniad i etholiadau'r Cynghorau Lleol, rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ganiatâd i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd, bennu'r trefniadau dwyn ymlaen diwedd blwyddyn ar gyfer 2016/17. Cyflwynwyd Sefyllfa Alldro Refeniw 2016/17 i bob aelod fel adroddiad er gwybodaeth ym mis Mehefin 2017.
- 2.10 Mae'r Cyngor yn monitro gwariant (sy'n cynnwys cyfraniadau wedi'u cynllunio i ac o gronfeydd gwasanaeth, cronfeydd wedi'u clustnodi a grantiau) yn erbyn ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn, yn seiliedig ar ei strwythur rheolaeth ac adrannol mewnol. Nid yw'r gwariant a'r incwm treth y cyngor a gafodd ei fonitro yn cynnwys y taliadau a'r dreth y cyngor a godwyd ar gyfer praeseptau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned. Gan wneud addasiadau ar gyfer y cronfeydd gwasanaeth, cronfeydd wedi'u clustnodi a grantiau a ddefnyddiwyd gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn, sef £4,475k (llinell 2, Colofn d) a phraeseptau'r Heddlu a'r Cynghorau Cymuned o £15,071k (gweler colofn e) rydym yn dod at gyfanswm y gwariant a'r incwm i'w godi ar Falansau'r Gronfa Gyffredinol (gan gynnwys Cronfeydd a Glustnodwyd) sef £243,087k (llinell 2, colofn f) yn y drefn honno, hynny yw, diffyg o £3,944k.
- 2.11 Adroddir ar yr HRA ar wahân yn ystod y flwyddyn ariannol, ac fe'i cyfunir yn rhan o'r gwaith o gynhyrchu'r cyfrifon diwedd blwyddyn. Roedd gwariant y CRT £434k yn fwy nag incwm (gweler llinell 4, colofn b) felly bu gostyngiad o £434k ym malansau'r CRT. Y gwariant net cyffredinol (yn cynnwys CRT) felly yw £243,521k (llinell 6, colofn f) sy'n gadael diffyg o £4,378 (llinell 8, colofn f).

ADRODDIAD NARATIF

2016-17	Cyllideb £'000 a	Alldro Gwirione ddol £'000 b	Amrywi ad £'000 c=b-a	addasu ar Gyfer		Net Gwariant a godir ar Gronfa Gyffredin ol a Balansau HRA £'000 f=b+d+e
				Cronfeydd wrth gefn Defnyddiwr yd Ym Mlwyddyn £'000 d	Praesept au Heddlu a Chymun ed £'000 e	
Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor						
Amgylchedd a Chynllunio	30,625	31,523	898	3,273	0	34,796
Tai a'r Economi	6,546	6,325	(221)	511	0	6,386
Gofal Cymdeithasol Oedolion	38,636	38,236	(400)	176	0	38,412
Gofal Cymdeithasol I Blant	13,857	13,720	(137)	(65)	0	13,655
Addysg	5,386	5,349	(37)	(44)	0	5,305
Ysgolion	78,601	79,539	938	0	0	79,539
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid	7,091	6,986	(105)	(26)	0	6,960
Cyllid	5,287	5,192	(95)	7	0	5,199
Trwsio a Chynnal	1,868	1,757	(111)	100	0	1,857
Gwasanaethau Corfforaeth a Chanolog	19,511	18,499	(1,012)	543	0	19,042
Gwariant Net Gwasanaethau	207,408	207,126	(282)	4,475	0	211,601
Corfforaethol a Chanolog:						
Chostau Gweithredu Eraill	6,433	6,433	0	0	15,071	21,504
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	10,228	9,982	(246)	0	0	9,982
Gwariant Net Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor Cyfanswm	224,069	223,541	(528)	4,475	15,071	243,087
Wedi'i ariannu gan:						
Grantiau Llywodraeth	(169,768)	(169,768)	0	0	0	(169,768)
Treth y Cyngor	(54,301)	(54,301)	(3)	0	(15,071)	(69,375)
Cyfanswm Incwm Cronfa'r Cyngor	(224,069)	(224,072)	(3)	0	(15,071)	(239,143)
Cronfa'r Cyngor Adroddwyd Gwarged) / Diffyg	0	(531)	(531)	4,475	0	3,944
HRA						
Gwariant	48,270	48,479	209	0	0	48,479
Incwm	(47,918)	(48,045)	(127)	0	0	(48,045)
Gwariant Net Adroddwyd	352	434	82	0	0	434
Cyfanswm Gwariant Net (Gan gynnwys HRA)	224,421	223,975	(446)	4,475	15,071	243,521
Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	(224,069)	(224,072)	(3)	0	(15,071)	(239,143)
Cyffredinol (Gwarged) / Diffyg	352	(97)	(449)	4,475	0	4,378

3. Y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2017

- 3.1 Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer rhwymedigaethau hysbys a chronfeydd wrth gefn sefydledig, lle bo hynny'n ofynnol yn ôl statud, ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol, neu wedi clustnodi arian ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.
- 3.2 Darpariaethau yw symiau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon fel rhwymedigaethau lle cafwyd digwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at rwymedigaeth ariannol, ond bod ansicrwydd ynghylch amseriad ac union werth y rhwymedigaeth. Dyma felly amcangyfrif gorau'r Cyngor o'i rhwymedigaeth ariannol ar 31 Mawrth 2017. Caiff darpariaethau eu datgelu yn nodyn 39 o'r Nodiadau ar y Cyfrifon.
- 3.3 Cronfeydd wrth gefn yw'r symiau a neilltuir yn y cyfrifon i'w defnyddio at ddibenion nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad o ddarpariaethau. Datgelir y wybodaeth am gronfeydd wrth gefn yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd Wrth Gefn ar dudalen 10 ac yn nodyn 6 yn y Nodiadau ar y Cyfrifon.
- 3.4 Mae balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn fesur o'r cronfeydd wrth gefn sydd heb eu neilltuo y mae'r Cyngor yn eu dal, i fodloni gofynion llif arian ac ymateb i ddigwyddiadau na ellir eu rhagweld yn y dyfodol. £7.018m oedd cyfanswm y Gronfa Gyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, £7.018m oedd y cyfanswm ar 31 Mawrth 2016 (gweler y Datganiad Symudiad Cronfeydd ar dudalen 10)

4. Buddsoddi Cyfalaf

- 4.1 £84.21 oedd y buddsoddiad cyfalaf (heb gynnwys cronïadau cyfalaf) yn y flwyddyn. Mae'r tablau canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r gwariant hwn a sut y cafodd ei ariannu:

Ymhle y gwariwyd yr arian cyfalaf	2016/17 £'000	%
Addasiadau a gwelliannau i ysgolion	14,041	16.67
Gwelliannau Prifffyrdd	4,588	5.45
Datblygiad Economaidd a Phrifffyrdd	1,528	1.81
Grantiau Adnewyddu Tai/Adnewyddu	2,922	3.47
Gwelliannau Tai Cyngor	51,904	61.64
Arall	7,644	9.08
Prydlesi Ariannol	1,581	1.88
Cyfanswm	84,208	100

O le daeth yr arian cyfalaf	2016/17 £'000	%
Benthyca	38,409	45.61
Derbyniadau Cyfalaf	6,724	7.99
Grantiau a Chyfraniadau	20,599	24.46
Refeniw	16,895	20.06
Prydlesi Ariannol	1,581	1.88
Cyfanswm	84,208	100

- 4.2 Mae addasiadau a gwelliannau i ysgolion yn cynnwys gwariant o £3,996k ar Ysgol Gwenfro, £4,127k ar Ysgol Hafod y Wern, £936k ar Ysgol Alexandra a £953k ar Ysgol Plas Coch fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Wedi'i gynnwys yn 'Arall' mae £1,900k ar gyfer y Cynllun Gofal Ychwanegol yn Ffordd Grosvenor, Wrecsam a £2,458k i ddatblygu prosiect ynni solar tir.

5 Benthyca

- 5.1 Dyled prifswm benthyciad y Cyngor ar 31 Mawrth 2017 oedd £317.7m. Mae'n strategaeth gan y Cyngor i gynnal lefel y benthyca allanol yn unol â'r Gofyn Cyllido Cyfalaf. Cymerwyd benthyciad PWLB o £8.9m yn ystod y flwyddyn.

6 Ailbrisiu a Gwaredu Asedau heb fod yn Gyfredol.

- 6.1 Mae gan y Cyngor raglen dreigl i ailbrisiu'i holl asedau o fewn pum mlynedd. Yn ystod 2016/17 ail-brisiwyd Tai Cyngor, Ystadau Masnachol ac eiddo adran yr Amgylchedd a Hamdden. Mae'r rhaglen ar gyfer y blynyddoedd i ddod fel a ganlyn:

2017/18 - Asedau Tai a Gwarchod y Cyhoedd, Swyddfeydd Cyhoeddus a Stadau Amaethyddol
 2018/19 - Marchnadoedd, Siopau, eiddo Gofal Cymdeithasol a chyfleuster Gwaredu Gwastraff PFI.
 2019/20 –Ysgolion a Chlybiau Ieuentid

- 6.2 Yn ychwanegol at y rhaglen dreigl, cynhelir adolygiad blynyddol o amhariad a newidiadau sylweddol yn y defnydd o eiddo.
- 6.3 Yn ystod 2015/16, gwnaed cyfanswm o £55,719k o ailbrisiadau ar i fyny, £55,344k ohono'n ymwneud â'r rhaglen dreigl o ailbrisiu asedau. Yr oedd hefyd ailbrisiadau ar i lawr/ amhariad ar Dai Cyngor o £, Tir ac Adeiladau Eraill o £(yr oedd £11,591k ohono'n gysylltiedig â'r rhaglen dreigl o ailbrisiu asedau), Asedau Dros Ben o £ k ac Asedau wedi'u dal i'w Gwerthu o £126k ac asedau Cymunedol o £1,323k. O'r ailbrisiadau i lawr / amhariadau, nodwyd £28,660k yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau a £26,790k yn y Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn.
- 6.4 Yn ystod y flwyddyn gwerthodd y Cyngor Dai Cyngor gwerth £1,787k ynghyd ag asedau eraill gyda gwerth dwyn ymlaen o £2,273k, a oedd yn cynnwys tir yn Western Gateway (£1,000k) tir yn ffordd Rhuthun (£700k), Fferm New Gates, Bangor-is-y-Coed (£490k) ac eiddo o'r enw Birmingham House yn Rhosllanerchrugog (£83k). Gwnaeth y cyngor golled net o £12k. Yn ogystal, fel rhan o brosiect tai fforddiadwy'r Cyngor ryddhaodd y Cyngor ddau barsel o dir gwerth £120 a £315k am ddim elw gan wneud colled o £447k.

7 Rhwymedigaethau Pensiwn

- 7.1 Mae'r Datganiad Cyfrifon, fel y'i cyflwynwyd, yn cydymffurfio â gofynion Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS 19), o ran y ffaith bod y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn adlewyrchu cost y flwyddyn gyfredol o ddarparu pensiynau i weithwyr, fel y mae actwari'r Cyngor, Mercers, wedi'i gynghori. Yn ogystal, mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad yr actwari o gyfran y Cyngor o rwymedigaeth y Gronfa Bensiynau (£318m) ar 31 Mawrth 2017, a'r gronfa wrth gefn sydd ei hangen i gyllido'r rhwymedigaeth honno. Y rhwymedigaeth cronfa pensiynau a ddatgelwyd yw cyfanswm y diffyg rhagamcanol sy'n bodoli dros oes ddisgwyliedig y gronfa. Bydd y diffyg hwn yn newid yn flynyddol yn ddbynnol ar berfformiad buddsoddiadau a'r tybiaethau actwariaid a wneir o ran pensiynwyr cyfredol, pensiynwyr gohiriedig a'r gweithwyr presennol.

8 Buddiant mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

- 8.1 Cafodd Gwasanaethau Masnachol Wrecsam, is-gwmni'r Cyngor sydd ym mherchnogaeth lwr y Cyngor, ei wneud yn gorff corfforaethol ar 1 Hydref 2014 a dechreuodd fasnachu ar 1 Ionawr 2015. Sefydlwyd y cwmni i fasnachu mewn gwasanaethau penodedig a ddarperir gan y Cyngor, ac i ymgymryd â gwasanaethau glanhau yn y lle cyntaf. Nid yw'r Cyngor wedi paratoi Cyfrifon Grŵp gan na fyddai hynny'n gwneud unrhyw wahaniaeth sylweddol i gyfrifon endid sengl y Cyngor. Mae copïau o ddatganiadau ariannol Gwasanaethau Masnachol Wrecsam wedi'u harchwilio ar gyfer y 12 mis hyd 31 Mawrth 2017 ar gael i'w gweld drwy gysylltu â Gwasanaethau Masnachol Wrecsam Cyf, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Gaer, Wrecsam, LL13 8BG

9 Newidiadau i'r Datganiadau Craidd

- 9.1 Yn dilyn yr adolygiad 'Adrodd y Stori' o gyflwyniad datganiadau ariannol awdurdodau lleol mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2016/17 (y Cod) wedi newid y trefniadau adrodd cylchranol ar gyfer y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC), wedi cyflwyno'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido ac wedi symleiddio'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn (DSCWG). Mae'r DIGC a'r dadansoddiad Gwariant a Chyllido yn cynnwys dadansoddiad cylchranol sy'n seiliedig ar sut y mae'r Cyngor wedi'i strwythuro a sut y mae'n gweithredu, yn monitro ac yn rheoli perfformiad ariannol. Yn flaenorol byddai'r Cyngor yn adrodd ar gost gwasanaethau unigol yn y DIGC yn unol â'r fformat a bennir yn y Cod Ymarfer ar Adroddiadau Gwasanaethau (SeRCOP). Mae data cymharol 2015/16 o adran gylchranol y DIGC a'r DSCWG wedi'i ailddatgan a darparwyd data blwyddyn gymharol 2015/16 ar gyfer y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido. Ni fu unrhyw effaith ar y wybodaeth yn y Fantolen o ganlyniad i'r newidiadau hyn

10 Rhagolygon Ariannol ar gyfer y Cyngor

- 10.1 Ar 24 Chwefror 2016 cymeradwyodd y Cyngor gynllun ariannol tymor canolig a oedd yn amlygu diffyg referniw posib o £27 miliwn ar gyfer y cyfnod 2017/18 i 2019/20. Gellir gweld y cynllun ariannol drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/whole-government-accounts/publications/whole-government-accounts-reserves/?skip=1&lang=cy>

- 10.2 Mae'n amlwg bod rhagolygon ariannol y Cyngor o ran cyllid a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant Referniw a Chyfalaf yn debygol o weld lleihad sylweddol yn y tymor canolig yn unol â mesurau caledi Llywodraeth y DU. Er nad yw union fanylion yr arian sydd ar gael i'r Cyngor ar gyfer 2018/19 a thu hwnt wedi'u cyhoeddi, mae'r Cyngor erbyn hyn yn rhagweld diffyg ariannol o tua £13m dros y tair blynedd nesaf.

11 Gwybodaeth Bellach

- 11.1 Mae rhagor o wybodaeth am gyfrifon a chyllidebau'r Cyngor ar gael gan y Pennaeth Cyllid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Stryt Lambpit, Wrecsam. Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor o ddarparu gwybodaeth lawn am ei faterion ariannol. Yn ychwanegol, mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl statudol i weld y cyfrifon cyn cwblhad yr archwiliad. Caiff argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio gan y cyhoedd ei hysbysebu yn y wasg leol.
- 11.2 Bydd y Datganiad Cyfrifon ar gael hefyd ar wefan yr Awdurdod (www.wrexham.gov.uk).

M S Owen

Pennaeth Cyllid

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn unol â'r Cod, gynnwys Datganiad o Gyfrifoldebau yn y Datganiad Cyfrifon sy'n nodi cyfrifoldebau penodol y Cyngor a'r Pennaeth Cyllid mewn perthynas â'r Cyfrifon hyn.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau ar gyfer:

- sicrhau y caiff ei faterion ariannol eu gweinyddu'n gywir ac y rhoddir y cyfrifoldeb am hynny i un o'i swyddogion. Yn y Cyngor hwn, y swyddog hwnnw yw'r Pennaeth Cyllid.
- rheoli ei faterion mewn modd a fydd yn sicrhau'r defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau ac yn diogelu ei asedau;
- cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

.....

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

Cyfrifoldebau'r Pennaeth Cyllid

Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol â'r arferion priodol sydd wedi'u nodi yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi:-

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna wedi'u rhoi ar waith mewn modd cyson;
- gwneud dyfarniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- (iii) cydymffurfio â Chod yr awdurdod lleol.

Yn ogystal mae'r Pennaeth Cyllid wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir ac wedi sicrhau eu bod yn gyfredol
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Tystysgrif y Pennaeth Cyllid

Paratowyd y Datganiad Cyfrifon yn unol â'r cod ac mae'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddyddiad y cyfrifyddu, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

.....

M S Owen CPFA

Pennaeth Cyllid

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Nod y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid yw dangos i rai sy'n talu treth y cyngor a rhent sut mae'r cyllid ar gael i'r Cyngor (e.e. grantiau'r llywodraeth, rhenti a threth y cyngor) am y flwyddyn wedi'i ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a enillwyd ddefnyddiwyd neu a yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer dibenion gwneud penderfyniadau rhwng adrannau'r Cyngor. Mae incwm a gwariant o dan arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn cael ei gyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2015/16				2016/17		
Net Gwariant a godir ar Gronfa Gyffredinol a Balansau HRA £'000	Addasiadau rhwng Cyllid a Chyfrifo (gweler nodyn 4) £'000	Net Gwariant yn yr Incwm a Datganiad Cynhwysfawr * £'000		Net Gwariant a godir ar Gronfa Gyffredinol a Balansau HRA £'000	Addasiadau rhwng Cyllid a Chyfrifo (gweler nodyn 4) £'000	Net Gwariant yn yr Incwm a Datganiad Cynhwysfawr * £'000
31,865	(5,875)	25,990	Amgylchedd a Chynllunio	34,796	(3,461)	31,335
7,988	2,000	9,988	Tai a'r Economi	6,836	1,678	8,514
2,846	128,013	130,859	Cyfrif Refeniw Tai	434	(2,555)	(2,121)
37,905	309	38,214	Gofal Cymdeithasol Oedolion	38,412	222	38,634
13,018	(221)	12,797	Gofal Cymdeithasol Plant	13,655	(462)	13,193
5,795	8,366	14,161	Addysg	5,305	9,392	14,697
76,830	(89)	76,741	Ysgolion	79,539	(236)	79,303
7,806	(33)	7,773	Gwas Corfforaethol a Chwsmeriaid	6,960	45	7,005
4,932	(348)	4,584	Cyllid	5,199	(281)	4,918
2,151	(158)	1,993	Trwsio a Chynnal	1,857	(194)	1,663
18,420	49	18,469	Corfforaethol a Chanolog	19,042	(2,115)	16,927
209,556	132,013	341,569	Cost Gwasanaethau	212,035	2,033	214,068
21,183	554	21,737	Gwariant Gweithredu Arall	21,504	1,181	22,685
10,183	15,113	25,296	Cyllid ac Incwm a Gwariant Buddsoddi	9,982	16,315	26,297
(239,331)	(12,904)	(252,235)	Trethu ac Incwm Grant Amhenodol	(239,143)	(14,709)	(253,852)
1,591	134,776	136,367	(Gweddill) / Diffyg	4,378	4,820	9,198
(36,845)			Cronfa Gyffredinol Agoriadol a HRA	(35,254)		
1,591			Ychwanegu: (Gweddill) / Diffyg ar Gronfa Gyffredinol a Balans HRA am y flwyddyn	4,378		
(35,254)			Cronfa Gyffredinol Derfynol a Balans HRA ar 31 Mawrth	(30,876)		

Dadansoddiad rhwng Cronfa Gyffredinol a Balansau HRA:

ronfa Gyffredinol £'000	HRA £'000	Cyfanswm £'000		Cronfa Gyffredinol £'000	HRA # £'000	Cyfanswm £'000
(27,564)	(9,281)	(36,845)	Cronfa Gyffredinol Agoriadol a Balans HRA	(28,819)	(6,435)	(35,254)
(1,255)	2,846	1,591	Ychwanegu: Gweddill/(Diffyg) ar Gronfa Gyffredinol a Balansau HRA mewn blwyddyn	3,944	434	4,378
(28,819)	(6,435)	(35,254)	Cronfa Gyffredinol Derfynol a HRA Balans ar 31 Mawrth	(24,875)	(6,001)	(30,876)

* Incwm a Gwariant wedi'i gydnabod yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol i'w weld yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9.

Dadansoddiad o'r symudiadau ar y balans HRA i'w weld yn y Symudiad ar y Datganiad Cyfrif Refeniw Tai ar dudalen 61.

DATGANIAD CYFRIF INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost cyfrifo yn y flwyddyn darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol yn hytrach na'r swm i'w gyllido o drethiant a rhenti. Mae awdurdodau yn codi treth a rhenti ar gyfer gwariant yn unol â gofynion statudol; gall hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifo. Mae'r sefyllfa trethu i'w gweld yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid a'r Datganiad Symudiad mewn Arian Wrth Gefn. Mae'r dadansoddiad gwasanaeth yn darparu cost uniongyrchol darparu'r gwasanaethau.

2015/16			Nodiadau	2016/17			
Gwariant Gros £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000		Gwariant Gros £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000	
39,482	(13,492)	25,990	Amgylchedd a Chynllunio	44,943	(13,608)	31,335	
71,006	(61,018)	9,988	Tai a'r Economi	67,848	(59,334)	8,514	
178,488	(47,629)	130,859	Cyfrif Refeniw Tai	19	47,028	(49,149)	(2,121)
53,048	(14,834)	38,214	Gofal Cymdeithasol Oedolion	53,770	(15,136)	38,634	
15,869	(3,072)	12,797	Gofal Cymdeithasol Plant	19,044	(5,851)	13,193	
25,294	(11,133)	14,161	Addysg	21,339	(6,642)	14,697	
86,281	(9,540)	76,741	Ysgolion	90,155	(10,852)	79,303	
8,852	(1,079)	7,773	Gwasanaeth Corfforaethol a Chwsmeriaid	8,199	(1,194)	7,005	
5,729	(1,145)	4,584	Cyllid	5,805	(887)	4,918	
1,993	0	1,993	Trwsio a Chynnal	1,663	0	1,663	
26,222	(7,753)	18,469	Corfforaethol a Chanolog	23,346	(6,419)	16,927	
512,264	(170,695)	341,569	Cost Gwasanaethau	383,140	(169,072)	214,068	
21,737	0	21,737	Gwariant Gweithredol Arall	7	22,685	0	22,685
40,018	(14,722)	25,296	Incwm a Gwariant Cyllid a Buddsoddiad	8	42,498	(16,201)	26,297
0	(252,235)	(252,235)	Trethu ac Incwm Grant Amhenodol	9	0	(253,852)	(253,852)
574,019	(437,652)	136,367	(Gweddill) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	448,323	(439,125)	9,198	
		(40,847)	(Gweddill) neu Ddiffyg ar ailbriso asedau nad ydynt yn gyfredol	52		(27,524)	
		4,269	Colledion nam ar asedau nad ydynt yn gyfredol a godwyd ar y gronfa wrth gefn ailbriso	52		3,627	
		(30,181)	Ailfesur y diffiniad net (ased) / rhwymedigaeth	45,46 & 55		58,288	
		<u>(66,759)</u>	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			<u>34,391</u>	
		69,608	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			43,589	

DATGANIAD SYMUDIAD MEWN ARIAN WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd ar y gwahanol arian wrth gefn gan y Cyngor, a ddadansoddiwyd i arian wrth gefn defnyddiwyd' (e.e. y rhai perthnasol i wariant cronfa) ac 'arian wrth gefn arall na ddefnyddir'. Mae symudiad yn y Datganiad Arian Wrth Gefn yn dangos sut mae'r symudiadau o fewn blwyddyn yn arian wrth gefn y Cyngor yn cael ei dorri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol â'r arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol a'r addasiadau statudol gofynnol i ddychwelyd i'r symiau a godir ar dreth y cyngor neu renti am y flwyddyn. Mae'r linell cynnydd/gostyngiad net yn dangos y Balans Cronfa Gyffredinol statudol a symudiadau Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ar y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hynny.

	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf Amherthnasol £'000	Cyfanswm Arian wrth gefn a ddefnyddir £'000	Arian Wrth Gefn na Ddefnyddir £'000	Cyfanswm Arian wrth gefn y Cyngor £'000
Balans ar 1 Ebrill 2015	27,564	9,281	15,083	1,459	53,387	431,207	484,594

Symud mewn Arian Wrth gefn yn ystod 2015/16

Gweddill / (Diffyg) ar ddarpariaeth gwasanaethau	(3,829)	(132,538)	0	0	(136,367)	0	(136,367)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	66,759	66,759
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(3,829)	(132,538)	0	0	(136,367)	66,759	(69,608)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail cyllido o dan reoliadau (nodyn 5)	5,084	129,692	(615)	(657)	133,504	(133,504)	0
Cynnydd / (Gostyngiad) Net yn 2015/16	1,255	(2,846)	(615)	(657)	(2,863)	(66,745)	(69,608)

Balans ar 31 Mawrth 2016	28,819	6,435	14,468	802	50,524	364,462	414,986
---------------------------------	---------------	--------------	---------------	------------	---------------	----------------	----------------

Dadansoddiwyd dros:-

Symiau a glustnodwyd (nodyn 6)	21,801	0
Symiau heb ymrwymo	7,018	6,435
Cyfanswm Balans	28,819	6,435

Balans ar 1 Ebrill 2016	28,819	6,435	14,468	802	50,524	364,462	414,986
--------------------------------	---------------	--------------	---------------	------------	---------------	----------------	----------------

Symudiad mewn Arian Wrth gefn yn ystod 2016/17

Gweddill/ (Diffyg) ar ddarpariaeth gwasanaethau	(9,188)	(10)	0	0	(9,198)	0	(9,198)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall					0	(34,391)	(34,391)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(9,188)	(10)	0	0	(9,198)	(34,391)	(43,589)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail cyllido o dan reoliadau (nodyn 5)	5,244	(424)	(2,533)	(58)	2,229	(2,229)	0
Cynnydd / (Gostyngiad) Net yn 2016/17	(3,944)	(434)	(2,533)	(58)	(6,969)	(36,620)	(43,589)

Balans ar 31 Mawrth 2017	24,875	6,001	11,935	744	43,555	327,842	371,397
---------------------------------	---------------	--------------	---------------	------------	---------------	----------------	----------------

Dadansoddiwyd dros:-

Symiau a glustnodwyd (nodyn 6)	17,857	0
Symiau heb ymrwymo	7,018	6,001
Cyfanswm Balans	24,875	6,001

MANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos y gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyngor. Mae asedau net y Cyngor (asedau heb rhwymedigaethau) yn cael eu cydweddu gan yr arian wrth gefn gan y Cyngor. Adroddir ar arian wrth gefn mewn dau gategori. Maecategori cyntaf arian wrth gefn yn arian wrth gefn a ddefnyddir e.e. arian wrth gefn y gall y Cyngor ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel arian wrth gefn, ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft Arian Wrth Gefn Derbynebaw Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori arian wrth gefn yw'r rhai nad yw'r Cyngor yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori arian wrth gefn hwn yn cynnwys arian wrth gefn sy'n cynnal enillion a cholledion anhylifadwy (er enghraifft yr Arian Wrth Gefn Ailbriso), lle byddai symiau ond ar gael i gyllido gwasanaethau os bydd yr asedau yn cael eu gwerthu; ac arian wrth gefn sy'n cynnal gwahaniaethau amser a ddangosir yn y Datganiad Symud mewn Arian Wrth Gefn 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail cyllido o dan reoliadau'.

31 Mawrth 2016		Nodiadau 31 Mawrth 2017	
£'000		£'000	
986,205	Eiddo, Offer a Pheiriannau	21	1,036,752
503	Asedau Etifeddiaeth	26	506
44	Asedau Anghyffwrddadwy	29	28
118	Dyledwyr Tymor Byr	31	114
986,870	Asedau Tymor Hir		1,037,400
3,309	Buddsoddiadau Tymor Byr	34	2,002
1,869	Asedau a Gynhelir Ar Werth	32	20
512	Rhestrau Eiddo		620
27,825	Dyledwyr Tymor Byr	35	27,299
280	Asedau Anghyffwrddadwy	30	296
4,847	Arian a'r Hyn sy'n Cyfateb	36	2,786
38,642	Asedau Cyfredol		33,023
(23,677)	Credydwy'r Tymor Byr	38	(19,398)
(4,052)	Benthyca Tymor Byr	40	(23,467)
(400)	Derbynebaw Grantiau Ymlaen Llaw - Cyfalaf	62	(32)
(145)	Derbynebaw Grantiau Ymlaen Llaw - Refeniw	62	(160)
(1,506)	Darpariaethau	39	(1,324)
(29,780)	Rhwymedigaethau Presennol		(44,381)
(2,439)	Darpariaethau	39	(2,441)
(4,326)	Credydwy'r Tymor Hir	38	(7,020)
(289,112)	Benthyca Tymor Hir	40	(298,314)
(28,151)	Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill	41 & 42	(28,473)
(256,718)	Rhwymedigaeth Pensiwn Net	46	(318,397)
(580,746)	Rhwymedigaethau Tymor Hir		(654,645)
414,986	Asedau Net		371,397
50,524	Arian Wrth Gefn Na Ddefnyddiwyd	49	43,555
364,462	Arian Wrth Gefn Na Ddefnyddir	50	327,842
414,986	Cyfanswm Arian Wrth Gefn		371,397

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb gan y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian a'r hyn sy'n cyfateb trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net o'r gweithgareddau gweithredol yn brif ddangosydd i ba raddau mae gweithredoedd y Cyngor yn cael eu hariannu trwy incwm grant a threthu, neu trwy dderbynebau gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y gwnaed all-lif arian ar gyfer adnoddau a fwriadwyd i gyfrannu at ddarparu gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol. Mae llif arian sy'n codi o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i ragweld hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf e.e. benthycu) i'r Cyngor.

2015/16 £'000		Nodiadau	2016/17 £'000
136,367	(gweddill) / diffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau		9,198
(43,716)	Addasiad i weddill/diffyg net ar ddarpariaeth gwasanaeth symudiadau heb gynnwys arian	57	(53,632)
(131,411)	Addasiadau ar gyfer eitemau yn y gweddill neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu	58	18,017
<u>(38,760)</u>	Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu		<u>(26,417)</u>
183,898	Gweithgareddau Buddsoddi	60	56,733
(151,734)	Gweithgareddau Ariannu	61	(28,255)
<u>(6,596)</u>	Cynnydd neu ostyngiad net mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb		<u>2,061</u>
1,749	Arian a'r hyn sy'n cyfateb ar ddechrau'r cyfnod adrodd		(4,847)
<u>(4,847)</u>	Arian a'r hyn sy'n cyfateb ar ddiwedd y cyfnod adrodd	36	<u>(2,786)</u>

1. Safonau Cyfrifo sydd wedi'u cyflwyno ond heb eu mabwysiadu eto.

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud ag effaith ddisgwyliedig y newid cyfrifo fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyflwyno ond heb ei mabwysiadu hyd yn hyn gan y Cod ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol.

Mae'r safonau a gyflwynwyd gan y Cod 2017/18 yn ymwneud â'r cyfrifon Cronfa Bensiwn ac felly ni fydd yn cael unrhyw effaith ar Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor.

2. Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifo

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifo a amlinellir yn Nodyn 64 y Cyfrifon, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud rhai dyfarniadau ynglŷn â thrafodaethau cymhleth neu'r rheiny sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau'r dyfodol. Y dyfarniadau beirniadol a wneir yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- a) Mae peth ansicrwydd ynglŷn â lefelau cyllid i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru ac yn benodol, derbyn refereniw a grantiau cyfalaf penodol. Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i roi arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael ei amharu yn sgil yr angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau o ddarpariaeth gwasanaeth. Mae gan y Cyngor hefyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei adolygu yn achlysurol, ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor.
- b) Cafwyd hawliad annisgwyl o fawr am iawndal gan dirfeddiannwr a effeithiwyd gan gynllun ffyrdd Llywodraeth Cymru a ariennir gan grant. Ni wnaethpwyd darpariaeth ar gyfer taliadau o'r fath gan y byddent fel arfer yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cynllun.
- c) Daeth adolygiad o asedau, yn arbennig y rhai a gedwir i bwrpasau datblygu economaidd, i'r casgliad nad oes gan y Cyngor unrhyw asedau sy'n cael eu cadw i bwrpas cynhyrchu incwm neu abrisiant cyfalaf yn unig ac felly nid oes gan y Cyngor unrhyw eiddo buddsoddi.

3. Tybiaethau a wnaed am y dyfodol a ffynonellau eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys rhai ffigyrau wedi'u amcangyfrif sydd wedi eu seilio ar dybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynglŷn â'r dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Amcangyfrifir trwy roi cyfrif o brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu'r balansau â sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol iawn i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'r eitemau a oedd ym Mantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2017 y mae risg sylweddol y byddant yn addasu llawer yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw'r Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Tybiaethau
Eiddo, Peiriannau ac Offer	Dibrisir asedau yn ystod eu hoes ddefnyddiol sy'n ddiabynnol ar dybiaethau ynglŷn â lefelau atgyweirio a chynnal a chadw a wneir yn y dyfodol mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn ansicr y bydd modd i'r Cyngor gynnal ei wariant presennol ar atgyweirio a chynnal a chadw, gan beri amheuaeth ynglŷn â hyd yr oes ddefnyddiol sydd wedi ei bennu i'r asedau. "Os cwtogir oes ddefnyddiol ased, mae'r dibrisiad yn cynyddu ac mae swm cario'r asedau yn gostwng.	Amcangyfrifir y bydd ffi dibrisio blynyddol adeiladau yn cynyddu £1.54m os yw'r oes ddefnyddiol yn lleihau cymaint ag un flwyddyn, a £3.79m os yw'n lleihau cymaint â dwy flynedd."
Cynllun Ariannu Preifat (PFI) a Threfniadau Tebyg	Ystyriwyd bod gan Gynlluniau Ariannu Preifat a threfniadau tebyg brydles ariannol yn y prydles i gyfrifo llog a phrif daliadau. Hefyd, amcangyfrifir bod y cynnydd RPI yn y contractau yn aros yn gyson trwy gyfnod y contract sy'n weddill.	Bydd cynnydd o 1% yn yr RPI yn cynyddu'r taliadau unedol dros yr ugain mlynedd nesaf cymaint â £30.7m.
Dyled Pensiwn	Mae'r amcangyfrif o'r ddyled net er mwyn talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau yn ymwneud â chyfradd y disgownt a ddefnyddir, y gyfradd yr amcanestynir y bydd cyflogau'n cynyddu, newid mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwoldeb a'r adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa pensiynau. Defnyddir cwmni o actiwariad ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol i'r Cyngor ynglŷn â'r tybiaethau y dylid eu cymhwyso.	Gellir mesur effaith y newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar y ddyled pensiwn. Er enghraifft, byddai cynnydd o 0.1% yn y rhagdybiaeth cyfradd gostyngiad yn arwain at leihad yn y ddyled pensiwn o £15,045k. Ond, mae'r rhagdybiaethau yn rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Yn ystod 2016/17, cynghorodd actiwariad y Cyngor bod y ddyled pensiwn wedi lleihau cymaint â £58,288k sydd i'w briodoli i ddiweddarau'r rhagdybiaethau.
Ôl-ddyledion	Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan y Cyngor falans mân ddyledwyr o £5.1m. Awgrymodd adolygiad o falansau arwyddocaol bod amhariad dyledion amheus o 3.1% (£159k) yn briodol. Ond yn yr hinsawdd economaidd bresennol, nid yw'n sicr y byddai lwfans o'r fath yn ddigonol.	Os byddai cyfraddau casglu yn dirywio, byddai dyblu swm amhariad y dyledion amheus yn gofyn am neilltuo £159k ychwanegol fel lwfans.

NODIADAU I'R CYFRIFON

4. Nodiadau i'r Gwariant a'r Dadansoddiad Ariannu

Mae'r nodiadau hyn yn darparu cysoniad i'r prif addasiadau i'r Gwariant Net Trethadwy i'r Gronfa Gyffredinol a Balansau HRA i gyrraedd y symiau yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr (CI&ES). Mae'r trosglwyddiadau perthnasol rhwng cronfeydd wedi'u hesbonio yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd ar dudalen 10.

Addasiad o'r Gronfa Gyffredinol a HRA i gyrraedd y symiau Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	2016/17				2015/16			
	Addasiad i Bwrpasau Cyfalaf (Nodyn a) £'000	Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn			Addasiad i Bwrpasau Cyfalaf (Nodyn a) £'000	Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn		
		(Nodyn b) £'000	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn c) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000		(Nodyn b) £'000	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn c) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Amgylchedd a Chynllunio	(2,935)	(528)	2	(3,461)	(4,949)	(547)	(379)	(5,875)
Tai ac Economi	2,027	(369)	20	1,678	2,544	(530)	(14)	2,000
Cyfrif Refeniw Tai	(2,401)	(179)	25	(2,555)	127,946	55	12	128,013
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	1,132	(910)	0	222	770	(462)	1	309
Gofal Cymdeithasol i Blant	(7)	(456)	1	(462)	87	(298)	(10)	(221)
Addysg	9,816	(472)	48	9,392	8,741	(324)	(51)	8,366
Ysgolion	(136)	(491)	391	(236)	(172)	252	(169)	(89)
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid	289	(249)	5	45	169	(200)	(2)	(33)
Cyllid	5	(285)	(1)	(281)	5	(312)	(41)	(348)
Trwsio a Chynnal	(194)	0	0	(194)	(158)	0	0	(158)
Corfforaethol a Chanolog - Gwasanaethau	(48)	(2,060)	(7)	(2,115)	681	(666)	34	49
Cost Gwasanaethau	7,548	(5,999)	484	2,033	135,664	(3,032)	(619)	132,013
Gwariant Gweithredu Arall	447	734	0	1,181	222	332	0	554
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi	7,862	8,656	(203)	16,315	6,659	8,729	(275)	15,113
Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol	(14,709)	0	0	(14,709)	(12,904)	0	0	(12,904)
Cronfa Gyffredinol neu Falans HRA (Gweddill) / Diffyg	1,148	3,391	281	4,820	129,641	6,029	(894)	134,776

a) Addasiadau i Bwrpasau Cyfalaf

- (i) Llinell Gwasanaethau - mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiad, amorteiddiad, amhariad ac ailbriso enillion a cholledion
- (ii) Gwariant Gweithredu Arall - yn addasu ar gyfer gwerthiannau cyfalaf a throsglwyddo incwm ar waredu asedau a'r symiadu a ddilewyd ar gyfer yr asedau hynny.
- (iii) Llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi a Gwasanaethau Penodol - y ffioedd statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. darpariaeth refeniw isaf a chyfraniadau refeniw arall wedi'u didynnu gan na chodir tâl ar y rhain dan yr arferion cyfrifo cyffredinol.
- (iv) Incwm a Gwariant Amhenodol a Threthiant - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm nad yw'n drethadwy dan arferion cyfrifo cyffredinol. Mae grantiau refeniw wedi'u haddasu o'r rhai i'w derbyn yn y flwyddyn y gellir eu cael heb amodau neu lle bydd amodau yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol wedi'i gredydu gyda grantiau cyfalaf sy'n cael eu derbyn yn y flwyddyn heb amodau neu lle bodlonwyd amodau yn ystod y flwyddyn.

b) Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm yn ymwneud â phensiwn (IAS 19)

Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm yn ymwneud â phensiwn - Buddion Gweithwyr IAS 19:

- (i) Ar gyfer gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn gweithwyr a wnaed gan yr awdurdod fel y caniatawyd gan statud a'u disodli gyda chostau gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y gorffennol / costau cwtogi.
- (ii) Ar gyfer Gwariant Gweithredu Arall - mae'r addasiad ar gyfer costau gweinyddu pensiynau
- (iii) Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi - mae'r llog net ar y rhwymedigaeth diffiniedig yn berthnasol i CI&ES.

c) Gwahaniaethau Eraill

Gwahaniaethau eraill rhwng y symiau wedi'u debydu / credydu i'r CI&ES a symiau sy'n daladwy/i'w derbyn i gael eu cydnabod dan statud:

- (i) Llinell gwasanaethau - mae hyn yn cynnwys addasiad ar gyfer absenoldeb wedi'u crynhoi ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- (ii) Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn adnabod yr addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru premiymau a gostyngiadau.

NODIADAU I'R CYFRIFON

5. Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifo a'r Sail Ariannu Dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i'r cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn y flwyddyn yn unol â'r arferion cyfrifo priodol i'r adnoddau a nodwyd gan ddarpariaethau statudol sydd ar gael i'r Cyngor i ddiwallu gwariant cyfalaf a referniw yn y dyfodol.

2016/17	Cronfeydd Defnyddiol				Symudiadau mewn Cronfeydd nad ydynt Yn
	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Cronfa Derbynebau Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwysio £'000	
Addasiadau sy'n bennaf yn cynnwys y Cyfrif Addasiad Cyfalaf:					
<u>Gwrthdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r CI&ES</u>					
Ffioedd ar gyfer dibrisio, amharu ac ailbriso colledion asedau nad ydynt yn gyfredol	19,500	24,828	0	0	(44,328)
Amorteiddio asedau anniriaethol	16	0	0	0	(16)
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau wedi'u cymhwyso	(6,827)	(7,880)	0	0	14,707
Gwariant Refeniw a ariennir o arian cyfalaf dan statud	819	5	0	0	(824)
Symiau o asedau anghyfredol a ddilewyd wrth eu gwaredu neu eu gwerthu fel rhan o'r enillion / colledion wrth waredu i'r CI&ES	2,625	1,870	0	0	(4,495)
Incwm mewn perthynas ag asedau a gyfranwyd	(2)	0	0	0	2
<u>Cynnwys amodau na ddebydwyd na chredydwyd i'r CI&ES</u>					
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf (nodyn 12)	(7,306)	(5,348)	0	0	12,654
Gwariant Cyfalaf yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a balansau HRA	(3,995)	(12,900)	0	0	16,895
Addasiadau yn bennaf yn cynnwys y Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwysio:					
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau heb eu cymhwyso a gredydwyd i'r CI&ES	(86)	0	0	86	0
Cymhwyso grantiau i ariannu cyfalaf a drosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf	0	0	0	(144)	144
Addasiadau yn bennaf yn cynnwys y Gronfa Derbynebau Cyfalaf:					
Trosglwyddo elw gwerthiant arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enillion / colled wrth waredu i'r CI&ES	(2,190)	(1,858)	4,048	0	0
Incwm Refeniw a ddiffiniwyd fel cyfalaf dan statud	(118)	(5)	123	0	0
Defnyddio Cronfa Refeniw Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	(6,724)	0	6,724
Trosglwyddo (i) / o gronfa Addasu Cyfalaf - neilltuwyd	0	0	0	0	0
- Ad-dalu benthyciadau i gyrff gwirfoddol	0	0	18	0	(18)
Trosglwyddo o Dderbynebau Cyfalaf a Ohiriwyd ar ôl derbyn arian parod	0	0	2	0	(2)
Cyfanswm Addasiadau i Bwrpasau Cyfalaf (gweler nodyn 4)	2,436	(1,288)	(2,533)	(58)	1,443
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:					
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r CI&ES - gweler nodyn 45 a 55	22,134	2,857	0	0	(24,991)
Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn	(19,582)	(2,018)	0	0	21,600
Newid net ar gyfer Addasiadau Pensiwn (gweler nodyn 4)	2,552	839	0	0	(3,391)
Addasiadau sy'n cynnwys y Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol:					
Swm y gwahaniaeth rhwng costau ariannol i'r CI&ES a chostau ariannol sydd i'w talu yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(194)	8	0	0	186
Addasiadau sy'n cynnwys y Cyfrif Absenoldeb a Gronwyd:					
Swm y gwahaniaeth rhwng cydnabyddiaeth tâl swyddogion y CI&ES ar sail cronniad a'r gydnabyddiaeth tâl sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	450	17	0	0	(467)
Cyfanswm Gwahaniaethau Eraill (gweler nodyn 4)	256	25	0	0	(281)
Cyfanswm Addasiadau	5,244	(424)	(2,533)	(58)	(2,229)

NODIADAU I'R CYFRIFON

5. Addasiadau rhwng y Sail Cyfrifo a'r Sail Ariannu Dan y Rheoliadau - parhad

Ffigurau Cymharol 2015/16

Cronfeydd Defnyddiol

208	Swm y mae costau cyllid a godir i'r CI&ES yn wahanol i gostau cyllid sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	186
<hr/>		
<u>(1,319)</u>	Balans ar 31 Mawrth	<u>(1,133)</u>

55. Y Gronfa Bensiynau

Mae'r Gronfa Bensiynau Wrth Gefn yn cynnwys gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifo ar gyfer buddion ar ôl cyflogaeth ac ar gyfer buddion ariannu yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl gyflogaeth yn y CI&ES oherwydd bod y buddiannau yn cael eu hennill gan weithwyr dros flynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddarau'r atebolrwydd i adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddi ar unrhyw adnoddau a neilltuwyd i dalu'r costau. Ond, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i buddion gael eu hariannu wrth i'r Cyngor wneud cyfraniad y cyflogwr i'r gronfa bensiwn neu dalu unrhyw bensiwn y mae'n gyfrifol amdano yn uniongyrchol. Mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i'w diwallu. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau bod arian wedi'i neilltuo erbyn amser talu'r buddion.

<u>2015/16</u> <u>£'000</u>		<u>2016/17</u> <u>£'000</u>
(280,870)	Balans ar 1 Ebrill	(256,718)
30,181	Ail-fesur atebolrwydd budd-dal net a ddiffiniwyd / (ased)	(58,288)
(27,978)	Gwrthdroad eitemau yn ymwneud â buddiannau ymddeol sydd wedi eu debydu neu'u credydu i'r Gwarged Diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y CI&ES	(24,991)
21,949	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	21,600
<hr/>		
<u>(256,718)</u>	Balans ar 31 Mawrth	<u>(318,397)</u>

56. Cyfrif absenoldebau cronodig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronodig yn cynnwys y gwahaniaethau fyddai'n codi fel arall ar Falans y Gronfa Gyffredinol / Balans HRA o absenoldebau a enillwyd, ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl gwyliu blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol bod yr effaith ar y Gronfa Gyffredinol / Balansau HRA yn cael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

<u>2015/16</u> <u>£'000</u>		<u>2016/17</u> <u>£'000</u>
(2,250)	Balans ar 1 Ebrill	(1,564)
2,250	Setlo neu ganslo'r croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	1,564
<hr/>		
(1,564)	Symiau cronodig ar ddiwedd y flwyddyn bresennol	(2,031)
686	Y swm y mae taliadau swyddogion a godir i'r CI&ES ar sail croniadau yn wahanol i'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(467)
<hr/>		
<u>(1,564)</u>	Balans ar 31 Mawrth	<u>(2,031)</u>

NODIADAU I'R CYFRIFON

57. Datganiad Llif Arian – Addasiad i'r gwarged / diffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod:

2015/16 £'000		2016/17 £'000
(28,261)	Dibrisio ac amharu ar asedau anghyfredol	(44,328)
(34)	Amorteiddio asedau anniriaethol	(16)
24	(Lleihad) / Cynnydd mewn rhestrau eiddo	108
(4,935)	Cynnydd/(Lleihad) mewn dyledwyr ac asedau anniriaethol	813
185	(Cynnydd)/Lleihad mewn credydwy	(2,506)
(6,029)	Trosglwyddo i / (o) cronfa bensiw	(3,391)
(568)	Trosglwyddo o / (i) darpariaethau	181
31	Amorteiddiad benthyca / dyledwyr tymor hir	2
(4,129)	Swm cludo'r asedau anghyfredol a werthwyd	(4,495)
<u>(43,716)</u>		<u>(53,632)</u>

58. Datganiad Llif Arian - Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged net neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu:

2015/16 £'000		2016/17 £'000
3,908	Elw o werthiant asedau anghyfredol	4,048
13,046	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i incwm a gwariant	14,793
(148,365)	Gwariant refereniw a ariennir o gyfalaf trwy statud	(824)
<u>(131,411)</u>		<u>18,017</u>

59. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredol

Mae llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

2015/16 £'000		2016/17 £'000
(177)	Llog a dderbyniwyd	(63)
15,301	Llog a dalwyd	17,703

60. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi

2015/16 £'000		2016/17 £'000
63,061	Prynu eiddo, peiriannau, offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	75,820
0	Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir.	0
155,806	Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau buddsoddi	6,806
(3,908)	Elw o werthiant eiddo, peiriannau, offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(4,048)
(10,700)	Elw o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	(1,300)
(20,361)	Derbynebaw eraill o weithgareddau buddsoddi	(20,545)
<u>183,898</u>	Llifoedd arian net o Weithgareddau Gweithredol	<u>56,733</u>

61. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu

2015/16 £'000		2016/17 £'000
(157,339)	Derbynebaw arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir	(43,744)
(1,961)	Derbynebaw eraill o weithgareddau ariannu	(1,309)
5,388	Taliadau i leihau'r ddyled sy'n weddill mewn perthynas â phrydlesau ariannol a chontractau PFI ar y fantolen	1,591
2,178	Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir	15,207
0	Taliadau eraill ar gyfer gweithgarwch cyllid	0
<u>(151,734)</u>	Llif arian net o weithgarwch ariannu	<u>(28,255)</u>

62. Incwm Grant

Credydodd y Cyngor y grantiau, cyfraniadau a rhoddion a ganlyn i'r CI&ES:

	2015/16	2016/17
	£'000	£'000
Credydwyd i Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol:		
Trethi Annomestig	38,801	40,435
Grant Cefnogi Refeniw	131,711	129,333
Grant Cytundeb Canlyniadau	1,316	0
Grant Lwfans Gwaith Trwsio Mawr	7,561	7,570
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1,164	1,149
Grant Cludiant	164	150
Grant Gwella Adeiladau Ysgolion	6	0
Ysgolion 21ain Ganrif	1,319	3,589
Rhaglen Newid ar y Cyd	974	99
Cronfa Weithredu Camddefnyddio Sylweddau	11	0
Dechrau'n Deg	144	163
Grant Safle Sipsiwn a Theithwyr	40	0
Adfywio Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid	142	594
Grant Diogelwch y Ffyrdd	83	168
Cronfa Cludiant Lleol	235	163
Grant Her Ysgolion Cymru	379	87
Sir y Fflint - ERDF	6	0
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Eraill	676	975
Cymdeithasau Cynfilwyr Wrecsam - cyfraniad asedau treftadaeth	0	2
	<u>184,732</u>	<u>184,477</u>
Credydwyd i Wasanaethau:		
Llywodraeth Cymru - Grant Cyfalaf Cyffredinol	967	993
Grant Adnewyddu Tai Penodol	852	909
Prosiectau Eco Arbed	416	252
Grant Strategaeth Gwastraff	2,787	2,681
Grant Cefnogi Pobl	4,981	4,981
Grant Gwella Addysg	4,903	4,803
Grant Adfer Tir Llygredig	400	0
Darpariaeth Ôl-16 mewn ysgolion	1,535	1,449
Dechrau'n Deg	3,144	3,108
Grant Ad-dalu Ffioedd Consesiynol	2,704	2,537
Cronfa Weithredu Ar Gamddefnyddio Sylweddau	5,470	5,219
PION Teuluoedd yn Gyntaf	1,851	1,635
Adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	3,852	2,587
Arall	3,704	4,106
Adran Gwaith a Phensiynau	43,306	43,008
Arall	13,716	14,282
	<u>94,588</u>	<u>92,550</u>

Mae'r Cyngor wedi cael nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w cydnabod fel incwm gan fod amodau ynghlwm â nhw sy'n nodi bod rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31/03/2016	31/03/2017
	£'000	£'000
Rhwymedigaeth Gyfredol:		
Grantiau a Dderbynnir Ymlaen Llaw - Cyfalaf:		
Llywodraeth Cymru Her Ysgolion Cymru	28	10
Cronfa Adfywio Lleol	21	21
Prosiectau Eco Arbed	252	0
Arall	2	1
Arall Cronfa Treftadaeth y Loteri	85	0
Arall	12	0
	<u>400</u>	<u>32</u>
Grantiau a Dderbynnir Ymlaen Llaw - Refeniw:		
Llywodraeth Cymru - Arian ar gyfer Darlledu Cyfarfodydd Cyngor a Gwefannau	4	4
Cynghorau Cymuned		
Grant Cludiant Lleol	67	97
Cymunedau yn Gyntaf - Pentrefi Trefol	0	42
Arall	16	17
Adran Gwaith a Phensiynau	35	0
Awdurdodau Lleol Arweiniol - Ysgolion Arweiniol ac sy'n Ymddangos	6	0
Arall	17	0
	<u>145</u>	<u>160</u>

63. Natur y Treuliau

	2015/16	2016/17
	£'000	£'000
Ffioedd, Taliadau ac Incwm Gwasanaeth Arall	(76,107)	(76,522)
Llog ac Incwm Buddsoddi	(14,722)	(16,201)
Incwm o Dreth y Cyngor	(67,503)	(69,375)
Grantiau a Chyfraniadau	(279,320)	(277,027)
Cyfanswm Incwm	(437,652)	(439,125)
Treuliau Gweithwyr	144,536	139,819
Treuliau Gweithwyr ysgolion VA a Sefydledig	11,691	12,561
Treuliau Gwasanaeth arall	327,742	186,416
Dibrisiad, amorteiddiad, amhariad a cholledion ailbriso	28,295	44,344
Taliadau llog	40,018	42,498
Praeseptau ac ardollau	21,183	21,504
Arall	332	734
Enillion neu golledion wrth werthu asedau nad ydynt yn gyfredol	222	447
Cyfanswm Gwariant	574,019	448,323
Gweddill neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	136,367	9,198

64. Polisiâu Cyfrifyddu

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2017. Mae gofyn i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon Blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, y mae'r Rheoliadau hynny'n gofyn iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17 (y Cod) yn bennaf, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Mae'r confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadir yn y Datganiad Cyfrifon yn gost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbriso categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol anghyfredol.

1. CRONIADAU INCWM A GWARIANT

Cyfrifir gweithgaredd ar gyfer y flwyddyn y caiff ei gynnal, nid pan wneir neu derbynir taliadau arian parod. Yn benodol:

- a) Cydnabyddir referniw yn sgil gwerthu nwyddau pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo risgiau sylweddol ac enillion y berchnogaeth i'r prynwr, a'i bod yn debygol y bydd y Cyngor yn derbyn llif o fuddion economaidd neu wasanaeth posibl yn gysylltiedig â'r trafodion.
- b) Cydnabyddir referniw yn sgil darparu gwasanaethau pan fydd y Cyngor yn gallu mesur canran cwblhau'r trafodion i raddau dibynadwy, a'i bod yn debygol y bydd y Cyngor yn derbyn llif o fuddion economaidd neu wasanaeth posibl yn gysylltiedig â'r trafodion.
- c) Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan maent yn cael eu defnyddio - lle ceir bwch rhwng y dyddiad y derbynir cyflenwadau a phryd y cânt eu defnyddio, cânt eu cario fel rhestr eiddo ar y Fantolen.
- d) Caiff treuliau'n gysylltiedig â gwasanaethau a dderbynir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogion) eu cofnodi fel gwariant pan dderbynir gwasanaethau yn hytrach nag wrth wneud taliadau.
- e) Cyfrifir y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail cyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na llifoedd arian sydd wedi'u gosod neu eu penderfynu gan y contract.
- f) Lle cydnabyddir incwm a gwariant ond nad ydyw arian parod wedi'i dderbyn neu ei dalu, cofnodir y dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ar y Fantolen. Lle ceir amheuaeth y caiff dyledion eu setlo, ysgrifennir balans y dyledwr i lawr a gwneir tâl i referniw am yr incwm na fydd yn cael ei gasglu o bosibl.

2. ARIAN PAROD A SYMIAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian yn cael ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw ac adneuo gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cael eu dangos fel symiau net o orddrafftiau banc sy'n cael eu talu pan ofynnir amdanynt ac maent yn rhan annatod o reoli arian y Cyngor.

3. ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU I BOLISIÂU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau cyfnodau blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo eu cyfrif yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd presennol a'r dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau i bolisiau cyfrifo oni bai bo angen drwy arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i ddefnyddio bob amser.

Caiff gwallow materol yn ffigurau'r cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

4. TALIADAU I REFENIW AM ASEDAU ANGHYFREDOL

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cefnogi a chyfrifon masnachu eu debydu â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiad i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol.
- colledion ailbrisiad a lleihad yng ngwerth asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Adbrisiad Wrth Gefn y gall y colledion gael eu dileu yn eu herbyn.
- amorteiddio asedau annirweddol i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i ariannu dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae gofyn iddo roi cyfraniad ariannol o refeniw tuag at leihad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio eu disodli gan gyfraniad i falans y Gronfa Gyffredinol/HRA, ar ffurf trafodyn addasu yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf ar y Datganiad Symudiad Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall.

5. BUDDION GWEITHWYR**Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth**

Buddion gweithwyr tymor byr yw'r rhai sy'n cael eu talu o fewn 12 mis ar ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys budd-daliadau fel tâl a chyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, bonysau a buddion heb fod yn ariannol (ee. ceir) ar gyfer gweithwyr cyfredol, ac fe'u cydnabyddir fel costau am wasanaethau yn ystod y flwyddyn pan fydd gweithwyr yn darparu gwasanaeth i'r Cyngor. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawliau gwyliau (neu unrhyw ffurf o absenoldeb, e.e. amser hyblyg, amser yn lle amser a weithiwyd) a enillwyd gan weithwyr ond nid wedi'u cymryd cyn diwedd y flwyddyn, y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y cronriad ar y cyfraddau cyflog ac enillion cymwys yn y flwyddyn gyfrifo ganlynol, sef y cyfnod y gall y gweithiwr gymryd y budd. Caiff y cronriad ei godi ar yr Arian dros Ben neu Ddiffyg yn Narpariaeth y Gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi drwy'r Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth gefn fel bod buddiannau gwyliau'n cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd.

Buddiannau Dod â Swydd i Ben

Mae Buddiannau Dod â Swydd i Ben yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol yn lle'r buddiannau hynny. Codir y buddiannau hyn ar sail cronriadau o'r gwasanaeth priodol neu, lle bo'n briodol, o'r gwasanaeth corfforaethol yn gynharach naill ai pan na fydd y Cyngor yn gallu tynnu'r cynnig ar gyfer y buddiannau hynny'n ôl mwyach neu pan fydd y Cyngor yn cydnabod costau ar gyfer ail-strwythuro. Lle bydd buddiannau dod â swydd i ben yn cynnwys codi pensiynau, mae darpariaethau statudol yn gofyn i falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiwnwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen dyraniadau i a chan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddion pensiwn wrth ddod â swydd i ben, a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiwnau a'r pensiwnwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau ar ôl Cyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita.
- y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Darparodd y ddau gynllun fuddiannau wedi'u diffinio i aelodau (cyfandaliadau a phensiynau ymddeoliad), a enillwyd gan weithwyr sydd wedi gweithio i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr athrawon yn golygu na all y rhwymedigaeth i'r buddiannau hyn gael eu pennu ar y Cyngor fel arfer. Cyfrifir y cynllun felly fel pe bai'n gynllun cyfrannu wedi'i ddiffinio, ac nid yw'r Fantolen yn nodi unrhyw rwymedigaeth i dalu'r buddiannau hyn yn y dyfodol. Caiff llinell y Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei chodi gyda chyfraniadau'r gweithiwr sy'n daladwy i'r Pensiynau Athrawon yn y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae hawl i bob aelod arall o staff ddod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cronfa Bensiwn Clwyd) a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Caiff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei gyfrif fel cynllun buddiannau diffiniedig:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Clwyd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau— h.y. asesiad o daliadau'r dyfodol a wneir mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiad gweithwyr ac amcangyfrifon enillion wedi'u rhagamcanu ar gyfer gweithwyr cyfredol.
- Mae dyledion yn cael eu gostwng i'w gwerth ar brisiau cyfredol yn defnyddio cyfradd sy'n seiliedig ar y gyfradd ddangosol ar fond corfforaethol ansawdd uchel.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg, fel y pennir gan actiwari y Gronfa:
 - gwarantau wedi'u dyfynnu – pris cynnig cyfredol
 - gwarantau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
 - gwarantau unedol – pris cynnig cyfredol
 - eiddo – gwerth y farchnad
- Caiff y newid yn rhwymedigaeth pensiynau net ei ddadansoddi yn y cydrannau canlynol:
 - cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillir eleni - wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau roedd y gweithwyr yn gweithio iddynt.
 - costau gwasanaethau blaenorol - cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i newid mewn cynllun neu gwtogiad sydd yn effeithio ar flynyddoedd o wasanaeth a gyflawnwyd yn y blynyddoedd cynnar – wedi'i ddebydu i'r Arian dros ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r rhan Corfforaethol a Chanolog.
 - buddiant net ar y rhwymedigaeth net diffiniedig (ased) h.y cost buddiant net i'r Cyngor – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth net diffiniedig (ased) sy'n codi o'r treigl amser a godir ar linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr— cyfrifir hwn drwy ddefnyddio cyfradd disgownt a ddefnyddir i fesur y goblygiad diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth buddion net diffiniedig (ased) ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y atebolrwydd net diffiniedig (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniad a thaliadau buddion.
 - ail-fesur yn cynnwys:
 - adenillion ar asedau cynlluniau - ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net ar yr atebolrwydd buddiannau diffiniedig net - tâl i'r Gronfa Bensiynau fel Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr arall.
 - enillion a cholledion actiwaraid – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad ydyw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariad wedi diweddarau eu rhagdybiaethau - wedi'u codi i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall.
 - cyfraniadau wedi'u talu i Gronfa Bensiwn Clwyd – arian parod wedi'i dalu fel cyfraniadau gweithiwr i'r gronfa bensiwn i setlo dyledion; ni chyfrifir am hyn fel traul.

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn i Falans Cronfa'r Cyngor/ HRA gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu yn uniongyrchol i bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod dyraniadau i a chan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ddiwedd blwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn, felly'n mesur yr effaith fuddiol ar Gronfa'r Cyngor/ HRA sydd angen cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach, na buddiannau a enillir gan weithwyr.

Buddiannau â Disgresiwn

Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn, mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rhwymedigaethau yr amcangyfrifir iddynt godi o ganlyniad i roi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon), yn cael eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad, ac yn cael ei gyfrif drwy ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

6. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod rhoi gwybod a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- a) y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amodau a fodolodd ar ddiwedd y cyfnod rhoi gwybod – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- b) y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod rhoi gwybod - nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith faterol, gwneir datgeliad yn nodiadau'r natur o ddigwyddiadau a'u heffaith ariannol fel y cawsant eu hamcangyfrif.

Nid yw digwyddiadau a gynhaliwyd ar ôl dyddiad awdurdodi'r cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

7. OFFERYNNAU ARIANNOL***Rhwymedigaethau Ariannol***

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg ac yn cael eu cario ar gost wedi'u hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd log effeithiol yw'r gyfradd sy'n union ddisgownt o'r taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn, i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Mae'r enillion a cholledion ar adbrynu neu setlo benthyciadau yn gynnar yn cael eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu'n digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu yn ôl eu trefn o gost wedi'i amorteiddio'r benthyciad newydd neu'n un wedi'i addasu, ac mae'r ysgrifennu i lawr i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad drwy addasu'r gyfradd log effeithiol.

Lle mae premiymau neu ddisgowntiau wedi cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor /HRA gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o ledaenu'r enillion neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu (ar wahân yn yr achos o'r Cyfrif Refeniw Tai lle mae credyd/ debyd dros oes y benthyciad gwreiddiol, hyd at uchafswm o ddeng mlynedd). Mae'r cysoniad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor / HRA yn cael ei reoli gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu i ddau fath:

- benthyciadau a symiau derbyniadwy (megis buddsoddiadau, hirdymor a dyledwyr masnach) – asedau gyda thaliadau sy'n sefydlog neu wedi'u penderfynu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol.
- asedau ar gael i'w gwerthu - asedau sydd â phris y farchnad a/neu sydd heb daliadau sefydlog neu daliadau y gellir eu pennu.

Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

Cydnabyddir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg. Maent yn cael eu mesur wedyn ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Pan mae asedau yn cael eu nodi fel wedi cael eu hamharu oherwydd y tebygolrwydd sy'n codi o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei ysgrifennu i lawr a thâl yn cael ei godi ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw) neu'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hwn. Mae colled yr amhariad yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio ar gyfradd log gwreiddiol yr ased.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ddatgydnabod yr ased yn cael ei gredydu neu ei ddebydu i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

8. TROSI ARIAN TRAMOR

Lle mae'r Cyngor yn ymrwmo i drafodion mewn arian tramor, trosir y trafodyn i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n berthnasol ar y dyddiad roedd y trafodyn yn effeithiol. Lle bydd symiau o arian tramor yn ddyledus ar ddiwedd blwyddyn, cânt eu hail-drosi ar y gyfradd gyfnewid ar 31 Mawrth. Mae unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu adnabod yn y llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

9. GRANTIAU LLYWODRAETH A CHYFRANIADAU

Os dynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti a rhoddion yn cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor pan mae sicrwydd rhesymol:

- bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u hatodi i'r taliad. a
- derbynir y grant a'r cyfraniadau.

Nid yw'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bydd amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Amodiad yw'r amodau sy'n nodi bod y manteision economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sydd wedi'u hymgorffori yn yr ased a gafwyd drwy ddefnyddio'r grant neu gyfraniad sy'n gorfod cael ei ddefnyddio gan y derbynnydd fel y nodir, neu bydd yn rhaid dychwelyd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddwyd fel blaendal fel grantiau a chyfraniadau lle nad yw'r amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwy. Pan fo'r amodau wedi'u bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau referniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli), neu Drethiant ac Incwm Grant nad ydyw'n Benodol (grantiau referniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle credydir grantiau cyfalaf i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans y Gronfa Gyffredinol/ HRA yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle bydd wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

10. ASEDAU TREFTADAETH – Asedau Treftadaeth Diriaethol ac Anniriaethol

Caiff Asedau Treftadaeth y Cyngor eu cadw yn Amgueddfa Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yng Nghanolfan Treftadaeth y Bers, ar safleoedd archeolegol yn y Fwrdeistref Sirol ac yn Neuadd y Dref yn Wrecsam. Asedau Treftadaeth sydd yn cael eu cadw i gefnogi'r prif amcan y Gwasanaeth Treftadaeth y Cyngor, h.y. cynyddu'r wybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o hanes y Cyngor a'r ardal leol. Cydnabyddir Asedau Treftadaeth a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbriso) yn unol â pholisïau cyfrifo'r Cyngor ar Eiddo, Cyfarpar ac Offer. Fodd bynnag, mae rhai rheolau mesur yn llac mewn perthynas ag asedau treftadaeth fel y nodir isod. Mae'r polisïau cyfrifo mewn perthynas ag asedau treftadaeth a dybir i gynnwys elfennau o asedau treftadaeth anniriaethol yn cael eu cyflwyno isod hefyd.

a) Regalia Dinesig

Mae'r casgliad o regalia dinesig yn cynnwys cadwyni maer, bathodynau a ffyn. Mae'r eitemau hyn wedi'u nodi yn y Fantolen fel prisiad yswiriant gan Bonhams of Chester ym mis Tachwedd 2012.

b) Casgliad eitemau ar gyfer yr Amgueddfa

Archeoleg

Mae'r casgliad arteffact archeolegydd yn cynnwys nifer bychain o eitemau. Mae dau wedi'i nodi ar y Fantolen; mae casgliad Llai o ddarnau arian yn cael eu priso ar adeg prisiad yswiriant (adolygir ar sail flynyddol) ac mae'r Casgliad yr Orsedd, a brynwyd yn 2003, yn cael ei gynnwys fel cost hanesyddol.

Hanes cymdeithasol

Mae casgliad hanes cymdeithasol yn anelu at gynrychioli bywyd bob dydd pobl Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r themâu a gwmpesir gan y casgliad yn cynnwys y cartref, crefydd, bywyd gwaith, chwaraeon a gweithgareddau hamdden, cyfnodau bywyd, iechyd, clybiau a chymdeithasau lleol. Mae'r casgliad yn cynnwys nifer bychan o eitemau o arian hynafol ac eitemau maer, ac wedi'u nodi ar y Fantolen ar brisiad cost neu yswiriant, diweddarwyd y diweddaraf gan Bonhams of Chester ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r prisiadau yswiriant hyn yn cael eu hadolygu ar sail flynyddol.

Hanes Diwydiannol ac Economaidd

Clociau ac Oriawr

Mae'r rhain wedi'u nodi yn y Fantolen ar brisiad yswiriant, wedi seilio ar werthoedd marchnad, a'r diweddaraf wedi'i ddarparu gan Bonhams of Chester ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r prisiadau yswiriant hyn yn cael eu hadolygu ar sail flynyddol. Eitemau Amrywiol

Mae'r casgliad yn cynnwys cabinet nwmismatig Edwardaidd a beic modur Powell Brothers sydd wedi cael eu priso ar brisiad yswiriant a'u hadolygu'n flynyddol.

Celfyddyd Gain ac Addurniadol

Mae'r casgliad celfyddyd yn cynnwys paentiadau, printiau, ysgythriadau a gwaith celf, ac mae wedi ei nodi ar y Fantolen y prisiad yswiriant, wedi seilio ar werth ar y farchnad, cafodd y ddiweddaraf ei ddarparu gan Bonhams of Chester ym mis Rhagfyr 2012. Mae rhaglen brisiadau pob pum mlynedd.

Astudiaeth Natur

Ar hyn o bryd mae'r amgueddfa'n cadw casgliad bach o wrthrychau hanes natur ar ffurf sŵoleg a daeareg gadwedig.

Hanes Milwrol

Mae'r rhain wedi'u nodi yn y Fantolen ar brisiad yswiriant, wedi seilio ar werthoedd marchnad, a'r diweddaraf wedi'i ddarparu gan Bonhams of Chester ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r prisiadau yswiriant hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Casgliad Pêl-droed Cymru

Mae'r casgliad pêl-droed yn cynnwys casgliad John Charles ac eitemau eraill o bêl-droed Cymru. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y Fantolen ar brisiad yswiriant, wedi seilio ar werthoedd marchnad, a'r diweddaraf wedi'i ddarparu gan Bonhams of Chester ym mis Rhagfyr 2012.

c) Safleoedd Archeolegol

Mae safleoedd yn cynnwys Glofa Glanrafon a Phenwisg, Pyllau Plwm y Mwynglawdd, Castell Holt, Rhannau o'r Glawdd Offa yn Amlogfa Wrecsam, Ysgol Uwchradd Rhiwabon, a Chlawdd Watt yn Watt's Dyke School, Garden Village a Mynwent Wrecsam.

d) Cerfluniaeth a Henebion

Ym marn y Cyngor, ni ellir prisio cerfluniaeth a henebion oherwydd eu bod yn aml iawn o natur amrywiol ac yn unigryw. Gan eithrio'r Bwa, sydd yn cael ei gydnabod ar gost hanesyddol, nid yw gwybodaeth o ran cost ar gael ac nid yw dulliau prisio confensiynol yn rhoi sicrwydd digonol.

e) Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) – Stryt Las, Johnstown

Ym marn y Cyngor, ni ellir prisio SSSI oherwydd y natur amrywiol ac unigryw yn aml iawn. Nid yw gwybodaeth o ran cost ar gael a nid yw dulliau prision confensiynol yn rhoi sicrwydd digonol.

Asedau Treftadaeth – Cyffredinol

Barn y Cyngor yw oherwydd hyd oes amhenodol Asedau Treftadaeth ac yn aml werthoedd gweddilliol sylweddol, na fyddai codi tâl am ddibrisiant yn briodol gan y byddai'n ddibwys ac felly ddim yn faterol. Pan mae Asedau Treftadaeth yn cael eu casglu ar gyfer y casgliad, maent yn cael eu hadnabod ar gost, cyfraniadau yn cael eu hadnabod ar brisiad; mae'r prisiadau yn cael eu darparu gan briswyr mewnol lle bo'n briodol, neu'n allanol lle nad yw arbenigwr gyda swydd o fewn y Cyngor. Lle ystyrir yn addas, cyflawnir prisiadau yn y dyfodol gan briswyr allanol gyda chyfeiriad at farchnadoedd masnachol, neu'n defnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diweddar o werthiannau ac arwerthiannau. I eitemau eraill o'r casgliad, mae'r Cyngor yn ystyried y byddai cael prisiadau ar gyfer casgliadau yn cynnwys cost anghyfartal o'i gymharu â'r buddion a ddarperir i ddefnyddwyr datganiadau ariannol y Cyngor.

Mae'r symiau cario asedau treftadaeth yn cael eu hadolygu lle mae tystiolaeth o amhariad o asedau treftadaeth, e.e. pan mae eitem wedi dirywio'n faterol neu wedi torri, neu lle mae amheuan o ran eu dilysrwydd. Mae unrhyw amhariad yn cael ei adnabod a'i fesur yn unol â'r polisïau cyffredinol y Cyngor ar amhariad – gweler nodyn 19 ar dudalennau 55 i 56 yn y crynodeb hwn o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Bydd y Gwasanaeth Treftadaeth yn achlysurol yn cael gwared ag asedau treftadaeth sydd o darddiad amheus neu'n anaddas i'w arddangos yn gyhoeddus. Bydd enillion o eitemau o'r fath yn cael eu cyfrif yn unol â darpariaethau cyffredin y Cyngor mewn perthynas â gwaredu Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar. Mae enillion gwaredu yn cael eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol ac yn cael eu cyfrif yn unol â'r gofynion cyfrifo statudol sy'n berthnasol i wariant cyfalaf a derbyniadau cyfalaf (eto gweler nodyn 19 ar dudalennau 55 i 56 yn y crynodeb hwn o bolisïau cyfrifo sylweddol.

11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau nad ydynt yn ariannol sydd heb sylwedd ffisegol, ond yn cael eu rheoli gan y Cyngor o ganlyniad digwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd), ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd y dyfodol neu botensial gwasanaeth yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Cyngor.

Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cyfalafu, lle mae'n ddangosadwy bod y prosiect yn bosibl yn dechnegol, ac y bwriedir ei gwblhau (gydag adnoddau digonol ar gael) a bydd y Cyngor yn gallu cynhyrchu buddion economaidd yn y dyfodol neu ddarparu gwasanaeth sy'n gallu gwerthu neu ddefnyddio'r ased. Mae gwariant yn cael ei gyfalafu lle gellir ei fesur yn ddibynadwy i'w priodoli i'r ased ac wedi'i gyfyngu i'r hyn â gafwyd yn ystod y cyfnod datblygu (ni ellir cyfalafu gwariant ymchwil). Nid yw gwariant ar ddatblygiad o wefannau yn cael eu cyfalafu os yw'r wefan wedi bwriadu yn unig, neu'n bennaf i hyrwyddo neu hysbysebu nwyddau neu wasanaethau'r Cyngor.

Mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur i ddechrau ar gost. Mae symiau ond yn cael eu hailbrisio lle mae gwerth teg o'r asedau sy'n cael eu dal gan y Cyngor yn cael eu pennu wrth gyfeirio at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid yw unrhyw ased anniriaethol a ddelir gan y Cyngor yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly maent yn cael eu cario ar gost wedi'i amorteiddio. Mae swm dibrisiedig ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linellau gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae ased yn cael ei brofi am amhariad lle bynnag mae dynodiad y gallai bod amhariad ar yr ased – bydd unrhyw golledion a nodir yn cael eu nodi ar y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw elw neu golled sy'n codi o'r gwaredu neu adawiad o ased anniriaethol yn cael ei nodi ar y llinell Unrhyw Wariant Gweithredol arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn cyfrif fel gwariant cyfalaf ar gyfer pwrpas statudol, wedi'i amorteiddio, colledion lleihad ac enillion a cholledion gwarediad yn caniatáu i gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor/ HRA. Felly caiff yr enillion a cholledion eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor/ HRA yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau gwerthiant dros £10k), i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

12. BUDDIANT MEWN CWMNIAU AC ENDIDAU ERAILL

Mae gan y Cyngor fuddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill sydd â natur is-gwmnïau a endidau a reolir ar y cyd. Felly mae angen i'r Cyngor baratoi cyfrifon Grŵp oni bai nad yw'r effaith gyffredinol y cyfrifon Grŵp yn faterol. Mae'r Cyngor yn adolygu'n flynyddol y graddau y mae'r endidau eraill (y mae gan y Cyngor fuddion rheoli drostynt) angen eu cydgrynhoi i gyfrifon Grŵp. Yn y cyfrifon un-endid y Cyngor eu hun, mae buddion mewn cwmnïau ac endidau eraill yn cael eu cofnodi fel asedau ariannol fel cost, unrhyw lai darpariaeth i golledion.

13. YSGOLION AWDURDOD LLEOL

Nid yw'r Cyngor yn cynnwys eiddo ysgolion, peiriannau a chyfarpar yn ei Fantolen lle nad yw'n berchen neu gyda reolaeth sylweddol dros fuddiannau economaidd o'r asedau hyn. Mae yn golygu bod eiddo, peiriannau a chyfarpar ysgolion wirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor, lle mae eiddo, peiriannau a chyfarpar ysgolion sefydledig a chymunedol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen. Mae incwm a gwariant ar gyfer yr holl ysgolion yn cael eu cynnwys o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a bydd unrhyw adnoddau nas werir y mae'r ysgolion yn eu dal yn cael eu cynnwys o fewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn Mantolen y Cyngor.

14. RHESTRAU EIDDO A CHYTUNDEBAU HIRDYMOR

Mae stoc a storfeydd a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu cofnodi ar bris cost. Mae hwn yn wriad o ofynion y Cod sydd angen i stoc ddangos ar y cost isaf a gwerth sylweddoladwy net. Fodd bynnag, nid yw'r symiau perthnasol yn cael eu hystyried yn faterol.

Mae cytundebau hirdymor yn cael eu cyfrif ar sail godi tâl am Warged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau gyda gwerth gwaith a gwasanaethau a dderbynnir dan y cytundeb yn ystod y flwyddyn ariannol.

15. EIDDO BUDDSODDI

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent a/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw wedi'i ddal i'w werthu.

Caiff eiddo buddsoddi ei fesur yn ôl y gost i ddechrau ac yn ôl gwerth teg ar ôl hynny, sef y pris a fyddai wedi cael ei dderbyn i werthu ased felly mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Fel ased anariannol mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur ar y defnydd uchaf a'r gorau. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond fe'u hadbrisir yn flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae enillion neu golledion yn cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn berthnasol i enillion a cholledion ar waredu.

Mae rhent a dderbynnir mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbriso a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly caiff yr enillion a cholledion eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau gwerthiant dros £10k), i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

16. GWEITHREDIADAU AR Y CYD

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniadau lle mae partïon sydd â rheolaeth ar y cyd o'r trefniant â hawliau i asedau a rhwymedigaethau ar gyfer y cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r trefniant. Mae'r gweithgareddau a wneir gan y Cyngor ar y cyd â gweithredwyr eraill yn golygu defnyddio asedau ac adnoddau'r gweithredwyr ar y cyd hynny. O ran ei gysylltiad ag ymgyrch ar y cyd, mae'r Cyngor fel cyd-weithredwr yn cydnabod:

- ei asedau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw asedau a ddelir ar y cyd
- ei rwymedigaethau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw rwymedigaethau a gafwyd ar y cyd
- ei refeniw o werthu ei gyfran o'r allbwn sy'n deillio o weithredu ar y cyd
- ei gyfran o'r refeniw o werthu'r allbwn sy'n deillio o weithredu ar y cyd
- ei gostau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw dreuliau y daethpwyd ar eu traws ar y cyd.

17. PRYDLESI

Caiff prydlesau eu dosbarthu fel prydlesau cyllid, lle bydd telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol pob risg a gwobr sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, peiriannau neu offer gan y prydleswr i'r prydlesai. Caiff pob prydles arall ei dosbarthu fel prydles weithredu. Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladu, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân er mwyn eu dosbarthu.

Caiff trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl eu cyfrif dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Y Cyngor fel Prydlesai***Prydlesau Ariannol***

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol taliadau isafswm y brydles, os ydynt yn is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei baru gan ddyled am y rhwymedigaeth i dalu'r prydleswr. Caiff costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor eu hychwanegu at swm cludo'r ased. Caiff premiymau a delir wrth ddechrau prydles eu rhoi wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles. Caiff rhenti amodol eu nodi fel treuliau yn y cyfnodau perthnasol.

Caiff taliadau prydlesau eu dosrannu rhwng:

- a) tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles, a
- b) thâl cyllid (caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir dan brydlesau ariannol eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisiau a ddefnyddir yn gyffredinol gydag asedau o'r fath, yn amodol ar godi tâl dibrisio dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol a amcangyfrifir yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i dalu dibrisiad neu ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth sy'n codi ar asedau ar brydles. Yn hytrach, gwneir cyfraniad doeth blynyddol o gyllid reffeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth eu disodli gan gyfraniad reffeniw ym Malans Cronfa Gyffredinol y Cyngor/ HRA, drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesau Gweithredu

Caiff rhent a delir dan brydlesau gweithredu eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost y gwasanaethau sy'n manteisio ar ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer ar brydles. Gwneir taliadau ar sail llinell syth, dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hynny'n cyd-fynd â'r patrwm taliadau (ee, nad oes rhaid talu rhent am gyfnod ar ddechrau'r brydles).

Y Cyngor fel Prydleswr***Prydlesau Ariannol***

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu beiriannau neu offer, caiff yr ased perthnasol ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau neu Offer neu Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei ddiddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu), wedi'i baru gan ased (dyledwr hirdymor) ar y Fantolen.

Caiff rhent prydlesau derbyniadwy eu dosrannu rhwng:

- a) tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer - fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles (ynghyd ag unrhyw bremiymau a dderbyniwyd), a
- b) thâl cyllid (caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaiff yr enilliad a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth ei waredu ei ganiatáu drwy statud i gynnyddu Balans y Gronfa Gyffredinol/ HRA ac mae angen ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi'i dderbyn, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor/ HRA i'r Gronfa Derbyniad Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan gaiff y swm dyledus o ran ased y brydles ei setlo gan daliad rhent mewn blynyddoedd ariannol y dyfodol, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor/ HRA i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan dderbynnir rhent y dyfodol, defnyddir yr elfen ar gyfer y derbyniadau cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr dyledwr y brydles. Yn y cam hwn, caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau anghyfredol yn cael eu talu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Prydlesau Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo neu beiriant neu offer, caiff yr ased ei gadw yn y Fantolen. Mae incwm rhenti yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell syth, dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hynny'n cyd-fynd â'r patrwm taliadau (ee, mae'n rhaid talu premiwm ar ddechrau'r brydles). Costau a ysgwyddir yn uniongyrchol i ddechrau i drafod a threfnu'r brydles yn cael eu hychwanegu at y swm a ddelir o'r ased perthnasol a chodir fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhenti.

18. GORBENION A GWASANAETHAU CYMORTH

Mae costau am gorbenion a gwasanaethau cynnal yn cael ei codi ar y segmentau gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Cyngor am atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

19. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac y'u cedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail cronladau, cyn belled â'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial y gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal potensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu ato (h.y. trwsio a chynnal a chadw) ei godi fel gwariant pan fydd yn digwydd.

Mesuriad

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, gan gynnwys:

- pris prynu
- unrhyw gost a briodolir i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu yn y modd y mae'r rheolwyr yn ei fwriadu.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ddaw tra bo asedau yn cael eu hadeiladu.

Bernir bod cost asedau a gaffaelir ar wahân i'w prynu yn werth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan fo ased yn cael ei gaffael drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cludo'r ased a roddir gan y Cyngor.

Mesurir asedau sy'n rhoddion yn ôl eu gwerth teg i ddechrau. Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw gydnabyddiaeth a dalwyd yn cael ei gredydu i'r llinell Trethiant ac Incwm a Gwariant Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod y rhodd wedi'i wneud yn amodol. Hyd nes bydd amodau yn cael eu bodloni, bydd yr enillion yn cael eu dal yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd. Lle credydir grantiau cyfalaf i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans Cronfa'r Cyngor/ HRA i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Yna caiff asedau eu cludo yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol dibrisiedig
- anheddau - gwerth cyfredol, a bennir yn defnyddio gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH).
- swyddfeydd y cyngor - gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol - EUV), ac eithrio ar gyfer ychydig o swyddfeydd sy'n cael eu lleoli yn agos i eiddo tai'r cyngor, lle nad oes marchnad ar gyfer swyddfeydd, ac sy'n cael eu mesur ar gost adnewyddu ddibrisiedig (adeilad amrantiad) fel amcangyfrif o'r gwerth cyfredol
- adeiladau ysgol - gwerth cyfredol, ond oherwydd eu natur arbenigol, cânt eu mesur ar gost adnewyddu ddibrisiedig sy'n cael ei ddefnyddio fel amcangyfrif o'r gwerth cyfredol
- asedau dros ben - y sylfaen mesur gwerth cyfredol yw gwerth teg, a amcangyfrifir yn y defnydd uchaf a gorau o safbwynt cyfranogwr y farchnad
- pob ased arall – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol - EUV).

Pan nad oes tystiolaeth o'r farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir costau amnewid dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnydd byr neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol ddibrisiedig fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol.

Caiff asedau sydd wedi'u cynnwys ar y Fantolen ar werth teg eu hailbriso'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cludo'n wahanol iawn i'w gwerth ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd. Caiff cynnydd o ran prisiau eu paru gan gredydau i'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i gydnabod enillion na wireddwyd. Mewn eithriadau, gellid credydu elw i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr lle maent yn codi o drawsosod colled a godwyd ar wasanaeth yn y gorffennol.

Pan nodir lleihad o ran gwerth, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronodig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cario'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn yn cynnwys enillion adbriso a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae enillion a godwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Lleihad mewn Gwerth

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai fod lleihad mewn gwerth. Pan fo arwyddion yn bodoli a phan amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn faterol, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif, a phan fo hyn yn llai na swm cario'r ased, caiff swm lleihad ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronodig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cario'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan gaiff lleihad mewn gwerth ei wrthdroi o ganlyniad, caiff y gwrthdroi ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiad a fyddai wedi'i godi pe na bai'r golled wedi'i chydabod.

Dibrisiad

Darperir ar gyfer dibrisiad ar bob ased Eiddo, Peiriannau ac Offer gan ddyraniad systematig eu symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau nad oes ganddynt oes ddefnyddiol feidraidd y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliad ac asedau cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiad ar y seiliau canlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill - dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo yn ôl amcangyfrif y prisiwr
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar - dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr ased, amcangyfrifir i fod yn 5 mlynedd ar gyfer cerbydau cyffredinol, peiriannau, dodrefn a chyfarpar a 20 mlynedd ar gyfer paneli solar
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnod o 50 mlynedd.

Pan fo gan ased Eiddo, Peiriant ac Offer gydrannau mawr sydd â chost sylweddol o ran cyfanswm cost yr eitem, caiff y cydrannau eu dibrisio ar wahân.

Caiff enillion adbriso eu dibrisio hefyd, gyda swm sydd gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth presennol a godir ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a gânt eu Dal i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cludo ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a gaiff ei Dal i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbriso'n syth cyn eil ailddosbarthu ac yna caiff ei gario ar y swm isaf a gwerth teg tynnu costau gwerthu. Pan fo lleihad dilynol i werth teg tynnu costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion o ran gwerth teg eu cydnabod hyd at swm unrhyw golledion blaenorol yn unig a gydnabyddir yn y Gwarged neu Golled ar Darpariaeth Gwasanaethau. Ni chaiff dibrisiad ei godi ar Asedau sy'n cael eu Dal i'w Gwerthu.

Os na fydd asedau yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu bellach, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol a'u priso ar swm isaf eu swm cludo cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau a gânt eu dal i'w gwerthu; cânt eu haddasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddio neu adbriso a fyddai wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel asedau a gânt eu dal i'w gwerthu, a'u swm adenilladwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Ni chaiff asedau a gaiff eu gadael neu eu sgrapio eu hailddosbarthu fel Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddatgomiynu, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriant, Offer neu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei diddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff derbyniadau o warediadau (os oes rhai), eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i fwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu). Caiff unrhyw enillion adbriso a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad mwy na £10k eu dosbarthu fel derbyniadau cyfalaf. Mae angen credydu balans derbynebau i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir eu defnyddio, neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu (y Nawdd Cyfalaf Gofynnol). Caiff derbynebau eu hadfeddu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor / HRA yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor/ rhent tai, gan fod cost asedau anghyfredol yn cael eu talu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor / HRA yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

20. CYNLLUNIAU ARIANNU PREIFAT A CHYTUNDEBAU TEBYG

Mae contractau PFI yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau lle mae'r cyfrifoldeb am ddarparu'r eiddo, peiriannau ac offer sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn trosglwyddo i gontractwr y PFI. Oherwydd y bernir bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan ei gynlluniau PFI, ac oherwydd y bydd perchnogaeth yr eiddo, peiriannau ac offer yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contractau am ddim tâl ychwanegol, mae'r Cyngor yn cario'r asedau a ddefnyddir dan y contractau ar ei Fantolen fel rhan o Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cafodd y gydnabyddiaeth wreiddiol o'r asedau hyn at werth teg (wedi seilio ar gost i brynu'r eiddo, peiriant ac offer) ei fantoli gan gydnabyddiaeth atebolrwydd am y symiau taladwy i weithredwr y cynllun i dalu am y buddsoddiad cyfalaf. Ar gyfer y cynllun Rheoli Gwastraff y Cyngor, ysgrifennwyd yr atebolrwydd i lawr gan gyfraniad cyfalaf dechreuol o £16.9 miliwn ar gyfer Cyfnod 1 a ddaeth yn weithredol yn ystod mis Medi 2009, a £16.3 miliwn ar gyfer Cyfnod 2 a ddaeth yn weithredol yn ystod mis Gorffennaf 2015.

Mae'r asedau anghyfredol a gydnabyddir ar y Fantolen yn cael eu hailbriso a'u dibrisio yn yr un dull ag eiddo, peiriannau ac offer y mae'r Cyngor yn eu perchen.

Mae'r swm sy'n cael ei dalu i weithredwyr y PFI bob blwyddyn yn cael ei ddadansoddi fesul 5 elfen:

- gwerth teg y gwasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn – debydwyd i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- tâl cyllid – tâl llog o 12.6% ar y ddyled sy'n ddyledus ar y Fantolen, caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- rhent amodol – cynnydd yn y swm i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, a ddebydir i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- taliad tuag at ddyled – sy'n berthnasol i ysgrifennu i lawr dyled y Fantolen tuag at weithredwr y PFI (caiff proffil ysgrifennu i lawr ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un egwyddorion ag ar gyfer prydles ariannol)
- costau disodli cylch oes - caiff cyfran o'r symiau taladwy ei phostio i'r Fantolen fel rhagdaliad ac yna caiff ei chydnabod fel ychwanegiadau i Eiddo, Peiriannau ac Offer pan gaiff y gwaith perthnasol ei wneud.

21. DARPARIAETHAU, DYLEDION DIGWYDDIADOL AC ASED AU DIGWYDDIADOL

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, y mae'n fwy na thebyg, angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm y rhwymedigaeth honno. Codir tâl am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, fe'u codir o'r ddarpariaeth sydd eisoes yn y Fantolen. Caiff setliadau a amcangyfrifwyd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, lle mae'n debygol na fydd angen taliad, a bod y ddarpariaeth yn cael ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol. Pan fo disgwyl i beth, neu'r cyfan, o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth gael ei adfer gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), dim ond pan fo'n bron yn sicr y caiff ad-daliad ei dderbyn os bydd y Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y caiff hyn ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol.

Dyledion Digwyddiadol

Mae dyled ddigwyddiadol yn digwydd pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor na ellir cadarnhau ei fodolaeth ar adeg digwyddiad, neu ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae dyledion digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau pan wneid darpariaeth fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw dyledion digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond yn cael eu datgelu mewn nodyn ynglŷn â'r cyfrifon.

Asedau Digwyddiadol

Mae ased digwyddiadol yn digwydd pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Cyngor na ellir cadarnhau ei fodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

Nid yw asedau digwyddiadol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ond yn cael eu datgelu mewn nodyn ynglŷn â'r cyfrifon pan ei fod yn debygol y bydd mewnllif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

22. CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r Cyngor yn rhoi symiau penodol o'r neilltu fel cronfeydd wrth gefn at bwrpasau cael arian wrth gefn ar gyfer polisiâu'r dyfodol. Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu creu drwy drosglwyddo symiau allan o'r Balans Cronfa'r Cyngor/ HRA yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan mae gwariant i'w ariannu o gronfa wrth gefn a gafwyd, codir i'r gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg o Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r cronfa wrth gefn wedyn yn cael ei drosglwyddo yn ôl i Gronfa'r Cyngor/ HRA yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oes tâl nes yn erbyn treth y cyngor/ rhenti HRA ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau gyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gall y Cyngor eu defnyddio – caiff y cronfeydd wrth gefn hyn eu hesbonio yn y polisiâu perthnasol.

23. GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF TRWY STATUD

Codir am wariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei wneud yn gyfalaf o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant i gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu bodloni â chostau'r gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu thrwy fenthycia, yna bydd trosglwyddiad yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor/ HRA i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godir fel nad yw Treth y Cyngor yn cael ei effeithio.

24. TRETH AR WERTH (TAW)

Caiff TAW taladwy ei gynnwys fel gwariant dim ond cyhyd â nad oes modd ei adfer gan Adran Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW derbyniadwy ei eithrio o'r incwm.

25. LWFANS YMRWYMIAD LLEIHOU CARBON

Mae gofyn ar y Cyngor i gymryd rhan yn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad i Leihau Carbon. Mae'r cynllun ar hyn o bryd yn ei drydedd flwyddyn o'i ail gyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae gofyn i'r Cyngor brynu lwfansau, naill ai'n yr arfaeth neu wrth edrych yn ôl, a'u hildio ar y sail o allyriadau, h.y. carbon deuocsid a gynhyrchir fel ynni a ddefnyddir. Tra allyrrir carbon deuocsid (h.y. tra defnyddir ynni), mae dyled a gwariant yn cael eu cydnabod. Bydd y ddyled yn cael ei gollwng trwy ildio lwfansau. Caiff y ddyled ei mesur ar yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen i gwrdd â'r rhwymedigaeth, fel arfer ar werth cyfredol y farchnad gogyfer â nifer y lwfansau y mae eu hangen i gwrdd â'r ddyled ar y diwrnod adrodd. Mae cost i'r Cyngor yn cael ei adnabod a'i adrodd yn y llinell segment Corfforaethol a Chanolog.

26. CYDNABOD REFENIW O DRAFODION ANGHYFNEWID

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion anghyfnwid eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 Accounting for Government Grants and Disclosure of Government Assistance, ar wahân i pan gânt eu dehongli neu eu haddasu i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus fel y cânt eu hegluro yn y Cod a/neu IPSAS 23, "Revenue from Non- Exchange Transactions (Taxes and Transfers)."

Trafodion Trethadwy

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion trethadwy eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r digwyddiad trethadwy'n digwydd, cyn belled â bod yr asedau yn bodloni diffiniad ased ac yn bodloni meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel ased.

Trafodion Annhrethadwy

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod y bydd y trefniad trosglwyddo yn rhwymo. Ni chaiff gwasanaethau mewn nwyddau eu cydnabod. Pan fo trosglwyddiad yn amodol ar amodau sy'n golygu bod angen dychwelyd yr adnoddau a drosglwyddwyd os na chânt eu bodloni, bydd y Cyngor yn cydnabod dyled nes i'r amod gael ei fodloni. Mae Sail Mesur Dosbarthiadau Refeniw Mawr o Refeniw Trethiant Trafodion Anghyfnwid yn cael ei fesur ar werth enwol o arian parod a chywerthoedd arian parod, asedau a refeniw a gydnabyddir o ganlyniad i drosglwyddiad yn cael eu mesur ar werth teg o'r asedau a adnabyddir o ddyddiad y cydnabyddiaeth:

- Caiff asedau ariannol eu mesur ar eu gwerth enwol oni bai bod gwerth amser arian yn berthnasol, a phryd hynny, defnyddir gwerth presennol, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ostyngol sy'n adlewyrchu'r risg cynhenid o gadw'r ased; a
- Caiff asedau anariannol eu mesur ar eu gwerth teg, a bennir drwy gyfeirio at werthoedd arsylladwy'r farchnad neu drwy arfarniad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Caiff symiau derbyniadwy eu cydnabod pan fo trefniant trosglwyddo sy'n rhwymo ar waith ond nad yw arian parod neu asedau eraill wedi'u derbyn.

27. MESURIAD GWERTH TEG

Mae'r Cyngor yn mesur rhai o'i asedau nad ydynt yn ariannol megis asedau dros ben ac eiddo buddsoddi a rhai o'i offerynnau ariannol ar werth teg ar bob dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu a dalwyd i drosglwyddo atebolrwydd mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranogwyr yn y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesur gwerth teg yn cymryd yn ganiataol bod y trafodion i werthu'r ased neu drosglwyddo'r atebolrwydd yn digwydd naill ai:

- a) yn y brif farchnad ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, neu
- b) yn absenoldeb y prif farchnad, yn y farchnad mwyaf manteisiol ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth.

Mae'r Cyngor yn mesur gwerth teg ased neu rwymedigaeth gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau y byddai cyfranogwyr yn y farchnad yn defnyddio wrth brisio'r ased neu'r rhwymedigaeth, gan dybio bod cyfranogwyr yn y farchnad yn gweithredu er eu lles economaidd gorau.

Wrth fesur gwerth teg ased anariannol, mae'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth gallu'r cyfranogwr yn y farchnad i greu manteision economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn ei ddefnydd uchaf a gorau neu drwy ei werthu i gyfranogwr marchnad arall a fyddai'n defnyddio'r ased yn ei ddefnydd uchaf a gorau.

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau prisio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac sydd â data digonol ar eu cyfer, gan gynyddu defnydd mewnbynnau gweladwy perthnasol a lleihau defnydd o fewnbynnau anweladwy.

Mae mewnbynnau at y technegau prisio mewn perthynas ag asedau a rhwymedigaethau y caiff gwerth teg ei fesur neu ei ddatgelu yn natganiad o gyfrifon y Cyngor yn cael eu categorio o fewn yr hierarchaeth gwerth teg, fel a ganlyn:

- Lefel 1 – dyfynbrisiau (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ddyledion sy'n union yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur
- Lefel 2 - mewnbynnau heblaw prisiau a ddyfynnwyd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n arsylladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Lefel 3 - mewnbynnau na ellir eu harsylwi ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth

DATGANIAD INCWM A GWARIANT HRA

Mae Datganiad Incwm a Gwariant yr HRA yn dangos y gost economaidd yn y flwyddyn i ddarparu gwasanaethau tai yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu trwy renti a grantiau'r llywodraeth. Mae Awdurdodau yn codi rhenti ar gyfer gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost cyfrifo. Mae'r cynnydd neu'r gostyngiad yn y flwyddyn, ar sail codi rhenti, wedi'i ddangos yn y Symudiad ar y Datganiad HRA.

2015/16 £'000		Nodiadau	2016/17 £'000	£'000
	Gwariant			
14,364	Trwsio a Chynnal	4	14,729	
4,931	Goruchwyllo a Rheoli		4,800	
1,953	Gwasanaethau Arbennig		2,213	
76	Rhenti, trethi, a chostau eraill		85	
1	Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai yn daladwy	11	0	
146,289	Taliad Setliad i Lywodraeth Cymru	11	0	
10,431	Dibrisiad, Amhariad a cholledion ailbriso asedau heb fod yn gyffredol	7	24,828	
79	Costau rheoli dyled		55	
0	Symiau a gyfeirir gan Lywodraeth Cymru	8	0	
288	Cynnydd mewn darpariaeth dyled wael	3	318	
178,412	Cyfanswm Gwariant			47,028
	Incwm			
(43,951)	Rhenti Annedd		(45,200)	
(952)	Rhenti di-annedd		(941)	
(1,973)	Ffioedd ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau		(2,184)	
0	Incwm arall		(5)	
(753)	Cyfraniad tuag at wariant	10	(819)	
(47,629)	Cyfanswm Incwm			(49,149)
130,783	Gwariant Net Gwasanaethau HRA			(2,121)
76	Colled cwtogiad pensiwn			0
130,859	Gwariant Net o Wasanaethau HRA fel yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CI&ES)			(2,121)
	Cyfran HRA o'r Incwm a Gwariant Gweithredol yn y CI&ES			
70	Colled / (Enillion) ar werthiant asedau di-gyffredol HRA			12
8,541	Llog taladwy a ffioedd tebyg			9,000
(33)	Incwm Llog a Buddsoddi			(19)
936	Llog net pensiynau a chostau gweinyddu	9		1,018
(7,835)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau derbyniadwy			(7,880)
132,538	(Gweddill) / Diffyg am y flwyddyn ar wasanaethau HRA			10

SYMUDIAD AR Y DATGANIAD HRA

2015/16 £'000		Nodiadau	2016/17	
			£'000	£'000
7,860	Balans ar yr HRA ar 1 Ebrill			6,435
(132,538)	(Diffyg) / Gweddill am y flwyddyn ar y Datganiad Incwm a Gwariant HRA		(10)	
129,692	Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu o dan Statud (gweler isod)		(424)	
(2,846)	Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddo i neu o arian wrth gefn			(434)
1,421	Trosglwyddo (i) / o Arian Wrth Gefn a Glustnodwyd			0
(1,425)	Cynnydd / (Gostyngiad) yn y flwyddyn ar yr HRA			(434)
6,435	Balans ar yr HRA ar 31 Mawrth			6,001
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu o dan Statud:				
Addasiadau yn cynnwys y Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn bennaf:				
<u>Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r CI&ES</u>				
10,431	Ffioedd dibrisio a diffyg asedau heb fod yn gyfredol		24,828	
146,289	Gwariant referniw a ariannwyd trwy gyfalaf o dan statud - Tâl Setliad Tai	11	0	
5	Gwariant referniw a ariannwyd trwy gyfalaf o dan statud - Arall		5	
(7,835)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau perthnasol		(7,880)	
3,132	Symiau asedau heb fod yn gyfredol wedi eu dileu trwy waredu neu werthu fel rhan o'r enillion/colledion ar waredu i'r CI&ES		1,870	
<u>Cynnwys eitemau heb eu debydu neu gredydu i'r CI&ES</u>				
(4,470)	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf		(5,348)	
(15,800)	Gwariant Cyfalaf a ariannwyd o falansau HRA		(12,900)	
Addasiadau yn bennaf yn cynnwys yr Arian Wrth Gefn Derbynebaw Cyfalaf:				
(3,062)	Trosglwyddo derbyniadau gwerthiant arian fel rhan o'r enillion/colled ar waredu i'r Datganiad HRA I & E		(1,858)	
0	Incwm Refeniw wedi'i ddiffinio fel cyfalaf o dan statud		(5)	
Addasiadau yn cynnwys Cyfrif Addasiadau Offerynnol Ariannol:				
6	Swm costau ariannol i'r Datganiad HRA I & E yn wahanol i gostau ariannol yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		8	
Addasiadau yn cynnwys yr Arian Wrth Gefn Pensiynau:				
2,925	Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-dal ymddeol sy'n wedi'i ddebydu neu gredydu i'r Datganiad HRA I & E - gweler nodyn 9		2,857	
(1,934)	Cyfraniadau pensiwn cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn		(2,018)	
Addasiadau'n Cynnwys y Cyfrif Absenoldeb Cronedig:				
5	Swm lle mae tâl swyddog i'r Datganiad HRA I & E ar sail croniad yn wahanol i dâl a godir yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		17	
129,692			(424)	

1. Stoc Dai

Roedd cyfanswm stoc dai y Fwrdeistref Sirol fel a ganlyn:-

<u>Hyd at 31/03/16</u>		<u>Hyd at 31/03/17</u>
7,033	Tai	7,012
1,052	Byngalos	1,052
2,495	Fflatiau	2,487
650	Unedau a Reolir gan Warden	656
<u>11,230</u>		<u>11,207</u>

2. Ôl-ddyledion Rhent

Cyfanswm ôl-ddyledion rhent hyd at 31 Mawrth 2017 oedd £1,494k. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer 31 Mawrth 2016 oedd £1,504k.

3. Darpariaeth ar gyfer Dyledion Gwael

Cafodd Darpariaeth ar gyfer Dyledion Gwael ei gynyddu trwy ffi i'r cyfrif I&E o £318k yn 2016/17 i roi balans ar ddiwedd y flwyddyn o £1,024k.

4. Cyfrif Atgyweirio Tai

Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yna Gyfrif Atgyweirio Tai ar wahân, o fewn y Cyfrif Refeniw Tai cyffredinol, i gofnodi cost Atgyweirio a Chynnal stoc dai'r Cyngor. Mae pob Awdurdod Tai Lleol yn penderfynu pa un ai i gadw Cyfrif Atgyweirio Tai ar wahân gan nad oes unrhyw ofyniad statudol i wneud hynny.

Ar ôl gadael y System Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) yn Ebrill 2015, caewyd y Cyfrif Atgyweirio Tai o 31 Mawrth 2016. Cafodd y balans o £1.4m ar y dyddiad hwnnw ei drosglwyddo i'r prif Gyfrif HRA lle mae holl wariant Atgyweirio a Chynnal nawr yn cael ei gofnodi.

5. Datganiad Ariannu Cyfalaf

Crynodeb o gyfanswm gwariant cyfalaf o fewn yr HRA yn ystod y flwyddyn gyda'r fffynonellau ariannu.

<u>2015/16 Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf £'000</u>		<u>Anheddau Cyngor £'000</u>	<u>Cerbydau, Peiriannau ac offer (Solar PV) £'000</u>	<u>2016/17 Tir Arall ac Adeiladau Asedau yn cael eu datblygu £'000</u>	<u>Gwariant Refeniw wedi'i ariannu trwy Gyfalaf £'000</u>	<u>Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf £'000</u>
196,056	Gwariant yn y flwyddyn	49,825	0	786	5	50,616
(111)	Ychwanegu: Symudiad mewn cronid Cyfalaf	1,254	0	34	0	1,288
<u>195,945</u>		<u>51,079</u>	<u>0</u>	<u>820</u>	<u>5</u>	<u>51,904</u>
	Ariannwyd gan:-					
7,561	Grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr	7,570	0	0	0	7,570
274	Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Eraill	310	0	0	0	310
15,800	Gwariant Cyfalaf wedi'i Godi ar Refeniw	12,456	0	444	0	12,900
2,021	Derbynebau Cyfalaf	743	0	376	5	1,124
170,289	Benthyca - heb gefnogaeth	30,000	0	0	0	30,000
<u>195,945</u>		<u>51,079</u>	<u>0</u>	<u>820</u>	<u>5</u>	<u>51,904</u>

6. Datganiad Derbynebau Cyfalaf

Crynodeb o gyfanswm derbynebau cyfalaf HRA a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn:

<u>2015/16 £'000</u>		<u>2016/17 £'000</u>
3,062	Gwerthu Tai Cyngor	1,780
0	Gwerthu Tai Cyngor - Disgownt wedi'i ad-dalu	7
3	Ad-dalu Morgeisi	2
0	Gwerthu Tir ac Eiddo Arall	76
<u>3,065</u>		<u>1,865</u>

NODIADAU I'R DATGANIADAU HRA

7. Dibrisiad, amorteiddiad a diffyg asedau heb fod yn gyfredol

2015/16		Dibrisiad £'000	Diffyg £'000	Colledion Ailbriso £'000	Cyfanswm 2016/17 £'000
9,116	Asedau heb fod yn gyfredol				
702	Anheddau	9,087	5,440	8,243	22,770
613	Tir ac Adeiladau Eraill	649	105	668	1,422
	Cerbydau, Offer a Pheiriannau	636	0	0	636
<u>10,431</u>		<u>10,372</u>	<u>5,545</u>	<u>8,911</u>	<u>24,828</u>

Dibrisiad, amorteiddiad a ffioedd nam ynglŷn ag asedau HRA heb fod yn gyfredol yn union ffi yn erbyn y Balans HRA Maent wedi eu gwrthdroi yn y Symudiad ar y Balans HRA, gyda ffi dibrisio yn cael ei ddisodli gyda'r Darpariaeth Lleiafswm Refeniw HRA (MRP) i gwrdd rhwymedigaethau credyd, fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Awdurdod Lleol (Arian Cyfalaf a Chyfrifo) (Cymru) (Diwygio) 2010. Mae'r MRP yn cael ei gyfrif trwy gyfeirio at ddyled cyffredinol yr HRA.

8. Symiau a gyfeirir gan Lywodraeth Cymru

Nid oedd unrhyw ddiwydiadau yn y Cymorthdal Ad-daliad Rhent gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn 2016/17, gan fod rhenti'r Cyngor o fewn terfyn rhent yr Adran Gwaith a Phensiynau.

9. Trafodion sy'n Ymwneud â Buddiannau Ymdeol

Mae'r polisi ar gyfrifo ar gyfer costau pensiwn yn berthnasol i'r HRA (gweler tudalen 46).

Mae cost buddiannau ôl-gyflogaeth yn cael eu cydnabod yng Nghost Net Gwasanaethau pan fydd gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau'n cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl i'w wneud ar yr HRA yn seiliedig ar gyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost gwirioneddol buddiannau ôl-gyflogaeth yn cael ei wrthdroi yn y Datganiad Symudiad yn y Balans HRA.

Mae'r trafodion canlynol wedi eu gwneud yn y Cyfrif Incwm a Gwariant a Datganiad Symudiad yn y Balans HRA yn ystod y flwyddyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau Dewisol	
	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
<i>Cost Gwasanaethau:</i>				
Cost gwasanaeth presennol	1,913	1,663	0	0
Diffyg cwtogiad	76	176	0	0
<i>Incwm a Gwariant Gweithredol Arall</i>				
Costau Gweinyddu	37	83	0	0
<i>Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi</i>				
Cost llog net	833	868	66	67
<i>Cyfanswm Budd-dal ôl gyflogaeth a godwyd ar Weddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau</i>	<u>2,859</u>	<u>2,790</u>	<u>66</u>	<u>67</u>
Symudiad yn y Datganiad Arian Wrth Gefn				
Gwrthdroi codiadau net a wnaed i'r Gweddill neu Ddiffyg ar gyfer Darparu Gwasanaethau budd ôl-gyflogaeth yn unol â Chod	(2,859)	(2,790)	(66)	(67)
<i>Union swm a godwyd yn erbyn Balans Pensiynau HRA yn y flwyddyn:</i>				
Cyfraniadau cyflogwyr taladwy i Gynllun Cronfa Pensiwn Clwyd	<u>1,782</u>	<u>1,888</u>		
Buddiannau ymdeol taladwy i bensiynwyr			<u>152</u>	<u>130</u>

10. Cyfraniad tuag at wariant

Mae hyn yn ymwneud â Grant Cefnogi Pobl a ddefnyddir i ariannu'r Gwasanaethau Cefnogi Tenantiaeth (£311k) a'r elfen cefnogi cysylltiedig â thai o Dai Gwarchod (£508k).

11. Taliad Setliad i'r Llywodraeth

O 2 Ebrill 2015 roedd y Cyngor yn gallu gadael y System Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) a hunan-gyllido. Er mwyn gadael HRAS roedd yn rhaid i'r Cyngor wneud un taliad setliad o £146m i Lywodraeth Cymru a ariannwyd trwy fenthyciad PWLB tymor hir.

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig a Cyngor Bwrdeistref Siroi Wrecsam am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Siroi Wrecsam yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai, a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 7, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau materol berthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Bwrdeistref Siroi a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau materol berthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n faterol berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n faterol berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol berthnasol amlwg, ystyriaaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Bwrdeistref Siroi Wrecsam

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Siroi Wrecsam ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys camddatganiadau ffeithiol faterol berthnasol neu mae'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Siroi Wrecsam yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw hygredd gwefan Cyngor Bwrdeistref Siroi Wrecsam a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
3 Awst 2017

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Bwrdeistref Siroi Wrecsam sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.